


ECO'R WYDDFA

RHIF 12

CHWEFOR 1977

Pris 8c

Torgoch Peris i Ffynnon Llugwy



SALVELINUS PERISII — Y TORGOC CYMREIG; Hyd: 9 — 10 modfedd; Pwysau tua 4 — 6 owns. Y lliw coch arno yn ystod amser claddu a rydd iddo'r enw Torgoch.

DIDDOROL oedd darllen yr adroddiad a baratowyd gan Swyddog Cynllunio'r Sir mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Datblygu Economaidd ar "Ardrawiad Gorsaf Bwrer ar Wynedd" (*The Impact of a Power Station on Gwynedd*).

Er fod *Eco'r Wyddfa* wedi ymdrin â sawl pwn yn yr adroddiad eisoes diddorol oedd sylwi ar y dyfyniad yma dan y pennawd, "Effaith Gorsaf Drydan ar 'Ecoleg' yr ardal: Mae prif ardrawiad ecolegol gorsaf storfa bwmp, heblaw problemau mynediad, yn codi o gynhyrchu llynnoedd naturiol a chyrsgau dŵr. Gall ehangu cymhwysedd (capacity) llyn, torri ar draws a throci cyfeiriad llifiad sianeli dŵr ac anwadaliadau gwastadau dŵr, gael effaith mawr ar ranbarth ecolegol sensitif, a chynhyrchu cyfnewidiadau parhaol yn ecoleg y rhanbarthau. Rhaid cario allan llawer o waith ymhell cyn dechrau adeiladu ac mae hyn, fel rheol, yn cael ei wneud gan y BCCT. Er hynny gall fod cyfnewidiadau mawrion yn ecoleg rhanbarth — rhai ohonynt yn rhai tymor hir, gyda'r canlyniad o golli neu gwtogi ar fathau arbennig o flodau a physgod e.e. 'Y Torgoch'..."

YR ECO YN HOLI

Ar ôl darllen hyn aeth un o reolwyr *Eco'r Wyddfa* gyda chydweithrediad y BCCT at y Swyddog sy'n gyfrifol am y gwaith rhagbarataol sef y Dr. Alistair Rogers, Swyddog Rhanbarthol yr Amgylchedd a Physgod Rhanbarth Gogledd Orllewin o'r BCCT a gofyn iddo ef am ei sylwadau.

Dywedodd Dr. Rogers: "Oherwydd y cyfnewid o ddydd i ddydd ar lefel dŵr Llyn Peris ni all poblogaeth y Torgoch ddarganfod lleoedd claddu addas ac yn y pen draw byddant yn marw allan. Mae'r newid mawr yn y lefel yn amharu ar arferion claddu'r tor-



Llyn enwog o'r diweddar Bob Jones yn ei gwch ger Pont Penllyn.

goch." Mae Dr. Rogers yn cydnabod hefyd mai hwn yw'r cynnig cyntaf ar drosglwyddo Torgoch o un llyn i'r llall. Mae'r arbrawf o'u symud eisoes wedi dechrau. Bu rhai o weithwyr Dr. Rogers yn 'godro'r' pysgod a throsglwyddo'r wyau i Orsaf Trydan Dŵr y BCCT yn Nyffryn Rheidol i'w magu.

Bwriadant ddychwelyd y pysgod bach i lyn cyfagos. Trosglwyddir rhai o Dorgochiaid Llyn Peris ar ôl eu godro i Ffynnon Llugwy uwchben Dyffryn Ogwen. Felly, mae Dr. Rogers a'i dim yn awyddus iawn i warchod y Torgoch.

ASTUDIAETH FANWL

Gall *Eco'r Wyddfa* gyhoeddi hefyd fod astudiaeth fanwl iawn wedi ei wneud o arferion ac amgylchedd y torgoch. Mae dipyn o wahaniaeth rhwng torgoch Llyn Peris a thorgoch Llyn Padarn. Mae

mwy o fwyd i'r pysgodyn yn Llyn Padarn ac o'r herwydd mae'n bysgodyn mwy.

Pob wythnos mae'r arbenigwyr yma yn astudio samplau o fwyd

yn y ddau lyn. Beth yw'r bwyd? Dyma gwestiwn sydd wedi cael ei ofyn ers blyneddau. Ar ôl agor stumogau rhai o'r torgochiaid darganfuwyd o dan y microscop mai creaduriaid bach yn dwyn yr enw *Plankton* a fwynt.

Perthyn y rhain i deulu'r *shrimp*. Dewisa'r Torgoch y math mwyaf o'r *Plankton* yma i'w fwyta.

AM FWYD

Nid oes gwrthdaro rhwng y brithyll a'r Torgoch yn y llynnoedd, ond ni chaiff y Torgoch fynd i gladdu i'r afon. Mae'r brithyll yn ei erlid i ffwrdd. Dyma un rheswm pam mai yng ngheg yr afon y mae'r Torgoch yn claddu.

ARFERION CLADDU

Mae arferion claddu'r Torgoch yn hynod ddiddorol. Yn nechrau Rhagfyr mae Torgoch Peris a Phadarn yn claddu ond dargan-

Penblwydd Hapus i'r ECO



Bydd cyfle i rywun yn rhywle ddod i drafod ei flwyddyn sefydlu ac i benderfynu ei ddyfodol mewn Cyfarfod Agored Blynnyddol yn :

Ysgol Gynradd, Llanrug ar nos Wener, 18 Chwefror am 7.30.

Os ydych chi am ei helpu i gerdded — dowch draw. Croeso i bawb yn y fro!

fuwyd y flwyddyn yma fod Torgoch Cwellyn yn claddu'n hwyrach. Yn rhyfedd iawn daw'r gwryw i'r manau claddu o flaen ei gymar — ond dyma un o gyfrinachau natur — ni w'r yr arbenigwyr y rheswm am hyn.

GWYBODAETH LEOL

Dywedodd Dr. Rogers hefyd ei fod wedi bod yn siarad ag amryw o bysgotwyr yr ardal megis y diweddar Bob Jones, Brynrefail ac R. Rowlands, Llanberis ac mae wedi cronicleu gwybodaeth hwy am y Torgoch. Mae'n gwerthfawrogi ac yn parchu eu gwybodaeth eang.

BETH AM OGOF?

Pan ofynnwyd iddo a oedd posibilrwydd fod yna sianel neu ogof danddaearol yn cysylltu Llynnoedd Peris a Phadarn â Llyn Cwellyn ei ateb oedd: "Mae'n anhebygol — maent eisoes wedi gollwng *echo sounder* i'r dyfnder ac mae'r wybodaeth a dderbyniwyd yn ôl yn awgrymu mai gwely hollol normal sydd i Lyn Peris. Nid yw Torgoch Cwellyn a Thorgoch Padarn a Pheris o'r un grŵp gwaed. Mae hyn yn awgrymu eto na fu ac nid oes cysylltiad rhwng pysgod y ddau le.

Mae'r BCCT yn cyhoeddi yn un o'u pamffledau: "While the main job of the CEBG is to produce and distribute electricity, it is required by the Electricity Act to show concern for the environment." Gall *Eco'r Wyddfa* gyhoeddi'r un pryd fod Dr. Alistair Rogers a'i dim yn cario allan egwyddorion y Ddeddf i'r eithaf.



Y diweddar Bob Jones yn gwneud plu. (Y lluniau trwy garedigrwydd Gwilym Jones, Llanberis).

ECO'R WYDDFA

RHIF 12 CHWEFOR 1977

Golygydd : Arwel Jones, Gwên-y-Wawr, Glanffynnon Llanrug.

Ffôn : Caernarfon 3719.

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd, Nant Peris.

Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.

CYFRANIADAU

Ein diolch i Mr. Meurig Owen, 115 Manor Park, Lewisham, Llundain am ei rodd o £2. Hefyd i Mr. Oswald Roberts, 20 Stryd Newydd, Porthmadog (gynt o Benisarwaun) am rodd o £1. Hefyd i Mr. a Mrs. Arthur Pritchard, Glanfa, Llanrug am rodd o 50c.

PENISAR WAUN

LLWYDDIANT

Llongyfarchiadau i Rhian Wyn Williams, Glyn Euron am lwyddo yn ei harholiad Cerddoriaeth Cyntaf (Guild Hall School of Music). Disgybl ydyw i Mrs. Heulwen Williams, Bethel.

BABANOD NEWYDD

Bu Ysbyty Dewi Sant, Adran Babanod yn gweithio gor-amser o gwmpas y Nadolig er lles y fro. Mae'n bleser o'r mwyaf gennym groesawu'r plant bach hyn i'n plith:

Llyr Tegai: Mab Mr. a Mrs. T. Elliot, Crud y Wawr, Bryn Eglwys **Elizabeth Ann:** merch Mr. a Mrs. Brian Jones, Perthi Isaf; **Owen Jasper:** mab Mr. a Mrs. Turner, Tyddyn Difyr; **Osian:** mab i Mr. a Mrs. Emrys Jones sy'n byw yn y Groeslon. Mam Osian yw Olwen 13 Bryn Tirion gynt; **Iwan Wyn:** mab Mr. a Mrs. Evans, 3 Snowdon View, Penygroes (mam Iwan Wyn yw Glenys, 8 Bryn Tirion gynt).

CROESO I'R FRO

Croeso cynnes i'r ardal i Cynrig Ellis Hughes a'i wraig sydd wedi dod i Galahad "King" i fyw. Magwyd ef yn Rhiwlas lle mae ei dad Mr. W. Iolen Hughes yn bennaeth yr ysgol gynradd yno. Buont yn byw yn Sydney, Awstralia a Seland Newydd cyn dychwelyd i'r fro. Cawsant daith hynod o ddiddorol ar eu ffordd yn ôl trwy Borneo, Thailand, Burma, Bangladesh, Yr India ag Afghanistan. Ymwelydd iechyd yw Mrs. Carys Hughes a hi fydd yn cymryd lle y cyn-ymwelydd iechyd Miss Meirwen Hughes a gwasanaethu dalgylch Bethel, Deiniolen a Pheinsarwaun. Ein diolchiadau i Miss Meirwen Hughes am ei gwasanaeth gwych



LLYTHYRAU



15, Ffordd Ty Du, Llanberis.

Barchus Olygydd,

Balch iawn oeddwn o ddarllen llythyr W.J. Jones, Talymignedd Isaf, Nantlle yn Eco'r Wyddfa.

Mae Wil John Ceunant - fel yr wyf fi yn ei adnabod - yn cyfeirio at gyfraniad gan rhywun o fro ei febyd sef ardal fach Ceunant. Yr wyf am anfon i Wil John "Beth am roi cynnig arni trwy ddweud ei hanes yn canu yr unawdau, ('Milwyr y Groes' ac yn y blaen) i gôr Harri Bach Llanrug, ac fel yr oedd yn dod i Gwm-y-Glo i ymarfer gyda Willie Gray, Peter Williams. Ei hanes yn y

cyngerddau mawr yn canu yn y Pafiliwn yng Nghaernarfon. Beth amdani Wil John?"

Yr eiddoch yn gywir
Ted Thomas
(Cwm-y-Glo gynt)

Coleg Bala-Bangor,
Bangor.

Annwyl Olygydd,

Hoffem, fel myfyrwyr yng Ngholeg Bala-Bangor fanteisio ar golofnau eich papur i wneud apêl ariannol ar ran y Coleg. Fel y gwyddoch mae'n debyg, gwnaeth y Coleg gyfraniad clodwiw i hanes a thraddodiad ein cenedl mewn llawer maes; yn arbennig, wrth

Llanmor.

Annwyl Olygydd,

GLAN PADARN

Yn eich rhifyn diwethaf dywedwch mai brodor o Ddeiniolen oedd Glan Padarn. Un o deulu Ty'n 'Rardd, tŷ ger Capel Dinorwig, sy'n furddun ers dechrau'r ganrif, ydoedd. Ni wn a fu'n byw am ryw faint yn y Black Lion, Clwt y Bont, ar ôl priodi, ond yn Nhy'n y Fawnog, Dinorwig yr oedd yn byw pan fu farw ei wraig ar ôl bywyd priodasol byr o lai na dwy flynedd. Dyma geir yn nyddiadur William Morris, Bron Fuchs: "Hyd. 7. 1878. Marw gwraig Thos. Dd. Thomas (Glan Padarn), Ty'n y fawnog, Dinorwig." Clywais fy mam yn dweud llawer gwaith ei fod yn byw wedyn yn y canol o dri bwthyn oedd uwchben Sinc Ty'n 'Rardd. Roedd rhain yn cael eu defnyddio fel 'bricsiod' chwarelwyr i fyny i'r Rhyfel Byd Cyntaf. Rwyf yn cofio chwaer Glan Padarn yn iawn pan oeddwn yn hogyn, - Mary Dafydd Thomas. Roedd yn byw yn Llanberis ac yn dod i fyny i Ddinorwig i'r Gwasanaeth yng Nghapel Sardis bob nos Sul waeth beth fyddai'r tywydd. Rhai o'r teulu sydd ar ôl ydyw Miss Lizzie Thomas, Llidiart y Clo, Dinorwig a Mr. Derlwyn Jones fu'n cadw siop ffrwythau yng Nghaernarfon, a'i chwaer Gaynor sy'n briod â Gweinidog Bedyddwyr yn rhywle yn y De.

A.T.

i'r ardal. Bydd hi'n symud i ardal Llew, Penygroes.

DYWEDDIAD

Dymuniadau gorau a phob bendith i Marie Williams, Cae Howell, ac Ifor Davies Talybont Rhostryfan ar eu dyweddïad.

DAW'R RHIFYN
NESAF ALLAN
AR
CHWEFOR 24
Cynnyrch i law'r Golygydd
erbyn
Chwefror 16

Rhosbodrual.

Annwyl Olygydd,

"Cofio Hen Fflam Eirias Fflwch" (Dim newydd dan yr haul). Pennawd yn y 'Post' heddiw oedd "Mercury alarm at school". Ymddengys i nwyon arian-byw ollwng o boply yn y lab wedi iddo ordwymo. Y thermomedr oedd wedi chwythu'i blwc. Galwyd ar y frigâd dân, gyda gwyr mewn cyfarpar arbennig, i reoli'r anffawd. Aed â'r plant i'r ysbyty lleol, lle cadwyd dau neu dri dan arolwg.

Cofiaf i anffawd tebyg ddigwydd yn Fform 4 yn hen Ysgol Brynrefail yn 1928. Yn y labordy Ffiseg yr oeddem fesul dau yn arbrofi gyda thyrrpentein (oel paent) mewn calorimeter. Dic Glanllyn, Llanbêr oedd fy mhartner i a gofynnid i ni ferwi thyrrpentein gan brofi ei dymheredd pan ddeuai i'r berw. Roedd gan bob pâr thermomedr mawr yn cofnodi gwres i 212°F os y cofiaf. Pan ddaeth yr hylif i'r berw, collodd peth ohono dros yr ymyl gan fflamio'n wyllt ac arllwys hyd y bwrdd. Cydiodd y tân yn wyllt yn wyneb seimlyd y bwrdd a'r fflamau yn ymestyn hyd y to. Roedd yr athro ieuanc, newydd-ddyfodiad y flwyddyn honno, mewn dipyn o strach, yn rhuthro'n ddryslud i chwilio am ddiffoddydd tân. Wedi'i gael, 'doedd dim posib ei gael i weithio, gan na fu ar draul ers hydoedd. Pan drawyd ef ar lawr toc, daeth ffrwd o soda-asid ohono a llwyddwyd i wastau y fflamau. Roedd pennau gwydr y thermomedrau wedi eu chwythu allan, a llifai arian-byw hyd y bwrdd ac ar lawr.

Mae'r athro hwnnw yn trigo yn yr ardal yma o hyd. A ydyw yn cofio'r digwyddiad hwnnw

HEN DDAMWAIN

The quarry train it came by force
And at Penllyn it struck a horse;
The horse belonged to Dafydd
Postman;
The bill was sent to Mr. Brickman.

Ar ôl y digwyddiad yma y rhoed giât ar draws y ffordd a dyn yno i wyllo'r giât.

gwrs, i Gristnogaeth yn ein gwlad. Sefydliad elusennol yw'r Coleg, yn dibynnu ar danysgriadau unigolion am ei fodolaeth. Tristwch yw gorfod addef na fu'r cyfraniadau hyn, er blynyddoedd bellach, yn ddigonol i gyfarfod â gofynion ariannol y Coleg. Gwnaeth y Coleg golled sylweddol ers amser bellach, ac erbyn hyn y mae yn wynebu argyfwng gwirioneddol ddifrifol. Oni cheir ymateb buan ac anrhydeddus i'r apêl genedlaethol hon, ofnwn y bydd yn rhaid i'r Coleg gau.

Gan ein bod yn ffyddiog fod gan fwyafrif darllenwyr eich papur ddiddordeb yng ngwerthoedd Cristnogol ein gwlad, yn ogystal ag yn yr Efengyl ei hun, hyderwn y byddant yn ymateb yn galonnog i'r apêl hon. Rhaid i ni ddiogelu'r dystiolaeth Gristnogol yn ein gwlad, ac ystyriwn fod gan Goleg Bala-Bangor gyfraniad gwerthfawr i'w wneud yn y maes hwn.

Gellir anfon pob cyfraniad at:

Mr.H.J. Hughes,
Coleg Bala-Bangor,
Bangor.

Yn gywir ar ran y Myfyrwyr,
John Pritchard,
1, Ffordd Padarn, Llanberis.

tybed, bron i hanner can mlynedd yn ôl? Mae amryw o'r hen ddisgyblion yma hefyd. A ydi Dilys Baylis a Casi, Erasmws a Gwil Ffranc yn cofio'r tro?

Fu dim sôn am frigâd dân, na meddwl am effaith y nwyon ar iechyd y plant. Chlywais i ddim am neb yn cwyno chwaith. A oedd yno berygl o ddifrif? Tybed a oes cofnod yn Llyfr Log yr Ysgol o'r anffawd?

R.W.

DEWCH I

SIOP THOMAS PRITCHARD IRONMONGER

BIRMINGHAM HOUSE
LLANBERIS Ffôn 206

am nwyddau a chelfi
a bob math i'r cartref

.....

Carpedi, leino, Paent
Valspar a Crown
Papur papuro, Tsieni,
Nwyddau Trydan a llawer
MWY.....

OLL AM BRISIAU
RHAD!

BARGEINION TOPDEC
bob mis

DEINIOLLEN



TÎM PÊL DROED Y PENTREF YN Y FLWYDDYN 1922

Nid cystadleuaeth arall yw hon i enwi'r tîm pêl droed welir yn y darlun uchod oedd yn cynrychioli'r pentref tros hanner can mlynedd yn ôl, sydd a'r oll o'i aelodau ond un bellach wedi'n gadael. Rhestrir yr aelodau wrth yr enwau fel y'u nodwyd gan un o'r tîm ar du cefn y darlun pan yn anfon copi i'r diweddar Dr. Emyr Jones (Ysbyty Môn ac Arfon gynt).

Rhes ôl: Dr. Emyr, Jac Malan, Wil Ifan (Tanyweirglodd), Hughie Jones.

Rhes Ganol: Ifor Bob-Daf, Jac Maldwyn, Wil Erw Wen.

Rhes Flaen: Ifor Tŷ Mawr, Now Lleiniau, Robin Malan, Idwal Roberts (Glan Rhydfadog) Jac Morgan Cwm.

LLONGYFARCHIADAU:

i'r Prif. Arolygwr John Emlyn Hughes mab y diweddar Mr. a Mrs. W.J. Hughes, London House, Clwt-y-Bont ar ei benodi gan y Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan yn Swyddog Diogelwch Cynllun Trydan Dinorwig. Ymddeolodd Mr. Hughes o'i swydd gyda Heddlu Gogledd Cymru yn ystod y mis yma, a bydd yn cymryd i fyny ei ddyletswyddau newydd ar Chwefror 1af 1977. Bwriada Mr. Hughes a'i deulu ddychwelyd i ardal ei febyd i ymgartrefu.

NEWID MAES

Wedi yn agos i ddeuddeng mlynedd o wasanaeth fel Ymwelydd Iechyd yn y cylch symudodd Miss Meirwen Hughes, Trefor i wasanaethu ardal Dyffryn Nantlle. Cyflwynir trwy golofnau'r *Eco* werthfawrogiad cywir yr ardalwyr i Miss Hughes am ei sirioldeb a'i chymwynasau parod tra'n llwybro yn ein mysg, gan dymuno pob dedwyddwch ac hapusrwydd iddi yng nghyffiniau Penygroes. Wrth ffarwelio â Miss Hughes manteisiwn ar y cyfle hwn i estyn croeso cynnes i'n bro i'w holynydd, Mrs. Carys Hughes.

MERCHED Y WAWR

Yng nghyfarfod Nadolig y Gangen cafwyd noson a gwledd arbennig gyda pharti o aelodau cangen Caernarfon yn cyflwyno rhaglen o safon uchel ar y Thema "Nadolig Ddoe a Heddiw". Rhoddwyd

eitemau o garolau a darlleniadau gan unigolion, deuawdau, a phartion a'r rhai a gymerai ran yn y portread o'r Nadolig Ddoe wedi eu gwisgo i'r cyfnod. Ymunwyd mewn rhai o'r carolau gan y gynulleidfa — copïau teipedig ohonynt wedi eu darparu ar gyfer hyn, a mwynhawyd y canu yn fawr. Ar ôl estyn croeso cynnes i'r gwahoddedigion trosglwyddwyd y cyfarfod gan y Llywydd (Miss Priscie Roberts) i Mrs. J. Lloyd Owen i'w arwain. Talwyd diolch i'r Parti a Mrs. Lloyd Owen gan Mrs. H. Sutherland, yr Is-lywydd, am raglen mor ardderchog a dathliad gwir-deilwng o'r Nadolig. Diolchodd Mrs. A. Rees-Owen i aelodau'r Pwyllgor a'r rhai a fu'n darparu y lluniaeth ardderchog o ddanteithion cartre, ac i Mr. a Mrs. J. Maldwyn Jones am yr Urn Te a'i chynnwys. Mynegodd y Llywydd ar ran yr aelodau, werthfawrogiad a diolch am y cydweithrediad hapus fu yn ystod y flwyddyn rhyngddynt a Mr. Eames yr Ysgolfeistr a Mr. John Morris y Gofalwr amyneddgar. Cyfeiriodd hefyd at haelfrydedd aelodau'r Clwb Snwcer yn cofio am holl bensiynwyr yr ardal eleni eto. Mae'n sicr y mynnai pob un o'r derbynwyr werthfawrogi'r anrheg yn ogystal ac ymweliad personol a sirioldeb y dosbarthwyr ar ddiwrnod gaeafol. Oherwydd y tywydd gerwin gohirwyd y ddarlith oedd i'w chyflwyno gan Miss Eleanor Jones yng nghyfarfod mis Ionawr, ac edrychir ymlaen at ymweliad Mr. Eurig Wyn (BBC cynt) ar Chwefror 21ain 1977.

CYNGOR EGLWYSI

Ar fore dydd Nadolig daeth cynrychiolwyr o fwyaf eglwysi'r pentref i'r Cyfarfod Gweddi Undebol gynhaliwyd dan lywyddiaeth Mr. John Williams yn Festri Disgwylfa. Mr. Donald Jones oedd yn llywyddu'r Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn gynhaliwyd yn Festri Ebenezer, nos Lun Ionawr 4ydd.

Y CLWB SNWGER

Nos Wener, Ionawr 7ed cynhaliwyd profion terfynol cystadleuthau snwcer "billiards" y Clwb am 1976. Cafwyd gemau brwd ymhob adran gyda'r canlyniadau isod:

Adran yr Aelodau Ifainc, Snwcer

— Kelvin Lewis yn ennill Euryr Owen. *Adran Hŷn, Snwcer:* Arthur Owen yn ennill Llion Fleming. *Adran Hŷn, Billiards* — William John Williams yn ennill Meirion Jones.

Cyflwynwyd y cwpanau arian a thariannau i'r gornestwyr gan Mr. Hefin Jones a Mr. Griffith Fleming. Mewn egwyl rhwng dwy gêm darllenwyd llythyr oddi wrth un o bensiynwyr y pentref yn gwerthfawrogi anrheg Nadolig y Clwb i holl bensiynwyr y pentref. Eleni bu aelodau Pwyllgor y Clwb yn rhannu dau bwys o siwgwr, hanner pwys o de a phwdin 'Dolig i'r pensiynwyr, a gofynnodd nifer o'r derbynwyr am ofod yn yr *Eco* i gysylltu eu hunain â'r diolch fynegwyd yn y llythyr y cyfeirir ato uchod:

Ar ddechrau'r saithdegau ofnid oherwydd amgylchiadau ariannol am ddyfodol y Clwb sydd wedi ei sefydlu ers 1921, a bu'r pwyllgor brwdfrydig etholwyd i wynebu'r argyfwng y pryd hwnnw yn ddeheuig i wella'r amgylchiadau, ac erbyn heddiw mae sawl sefydliad yn y pentref wedi profi o haelioni'r Clwb. Swyddogion presennol y Clwb yw Mr. Edwin Evans, Llywydd, Mr. Irfon Thomas, Trysorydd, a Mr. Gwyndaf P. Roberts, Ysgrifennydd.

ADREF O'R YSBYTY

Bydd ffrindiau Mr. John Williams, 3 Tai Cynfi yn falch o'i weld adref o'r ysbyty wedi amser byr dan archwiliad meddygol. Adferiad buan i Mr. Williams a phawb o'r pentrefwyr fu dan anhwylder diweddar, a'n dymuniadau gorau am 1977 i ddarllenwyr yr *Eco*.

SEFYDLIAD Y MERCHED

Nos Lun, Ionawr 10ed estynwyd croeso gan y Llywydd Mrs. M.A. Thomas i'r Cynghorydd Dafydd Orwig, Bethesda, un o gynfechgyn y pentref oedd wedi ei wahodd i'r Sefydliad i annerch ar "Datblygiad Deiniolen Tros Y Blynnyddoedd". Roedd y traethu wrth fodd calon y gwrandawyr a chafwyd awr ddifyr yn olrhain tyfiant y pentref o'r tŷ cyntaf i'w adeiladu yma ddau can mlynedd yn ôl yn Caeau Uchaf, hyd at y presennol. Diolchwyd yn gynnes i'r Darlithydd gan Miss Eleanor Jones, Mrs. Dilys Williams a Miss Beti Williams. Y gwestwagedd te oedd Mrs. Eirlys Lloyd Jones a Mrs. Eirlys Williams.

YSGOLORIAETH I GOLEG CAERGRAWNT

Enillodd Paul Canaway, Craig Ddeiniol, ysgoloriaeth agored i Goleg Yr Iesu, Caergrawnt, a bydd yn cychwyn ar ei dymor yn darllen Gwyddonau Naturiol yno fis Hydref nesaf. Disgybl yn ysgol enwog Repton oedd Paul tan ddiwedd y tymor diwethaf, lle y llwyddodd i ennill y graddau uchaf posibl yn ei Arholiadau Lefel 'A'. Anfonwn ein llongyfarchion cynnes ar ei lwyddiant i Paul, sydd ar hyn o bryd yng ngwasanaeth cwmni ICI yn Alderley Edge, Swydd Caer, fel aelod o dîm sy'n cario allan ymchwiliadau gwyddonol fydd yn ymwneud â'i astudiaethau yng Nghaergrawnt.

PLAID CYMRU

Mae gan Gangen Plaid Cymru Deiniolen a'r Cylch wibdaith i Lundain, Chwefror 25-27, i Gyngerdd Gŵyl Ddewi sydd i'w gynnal yn yr Albert Hall. Dylai unrhyw berson sy'n dymuno dod roi ei enw mor fuan ag sydd modd i Miss Jean Parc Jones, Blaen Cae, Deiniolen. Rhif ffôn: Llanberis 617.

CYDNABOD

Dymuna nifer o bentrefwyr gydnabod yn ddiolchgar y rhoddion Nadolig a dderbyniwyd eleni eto oddi wrth y Gymdeithas T.B. — mudiad dyngarol arall yn ein plith yn cyflawni cymwynasau lawer yn y dirgel.

TAN-Y- COED

CYDYLL COCH

Ddechrau'r flwyddyn newydd cyn y tywydd mawr, gwelwyd aderyn dieithr iawn i'r ardal hon, y Cudyll Coch. Dyna lle yr oedd yn sefyll yn agos i annedd, wrth ymyl tŷ'r adar oedd yn yr ardd. Soniwyd am hyn wrth gyfaill ac meddai, "Arwydd o dywydd mawr" ac fe ddaeth y tywydd mawr. Gobeithio y bydd rywrai o hyd yn dal i ymddiddori a sylwi ar arwyddion y tywydd ym myd natur; hyn dipyn mwy diddorol na disgwyl a gwrandao ar ragolygon y tywydd ar y teledu.

Dioddefwr mewn canlyniad i'r tywydd garw yw Mrs. Jennie Rees Hughes, Oerddwr. Syrthiodd Mrs. Hughes ar y rhew a thorri ei braich. Dymunwn adferiad buan iddi. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da hefyd i Mrs. Catherine Evans, Preswylfa sydd yn Ysbyty Minffordd.

UN O'R ARDAL

Llongyfarchiadau i un o blant yr ardal sef Gwyn Griffith gynt o 3 Tai Trefor ond yn awr o Danycoed, Ffordd Fenai, Caernarfon ar enedigaeth y trydydd mab iddo ef a'i briod Jane. Ganwyd y mab ar yr ail o Ionawr. Drwg gennym gofnodi fod Mr. Gwyn Griffith yn Ysbyty Môn ac Arfon ar hyn o bryd wedi derbyn triniaeth lawfeddygol. Dymunwn adferiad buan iddo.

Wavell Roberts

CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus
Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

LLANRUG

YN YR YSBYTY

Dymunwn adferiad buan i'r canlynol sydd wedi mynd i'r ysbty: Mrs. Mona Griffiths, Orwig House Mrs. Dorothy Jones a'i mam Cartrefle; Mr. Harri Gwynn, Tyddyn Rhyddallt.

CYMDEITHAS PONTRHYTHALLT.

(Yn cynnwys y 4 capel Hermon, Bryngwyn, Pontrhythallt a Than-y-Coed). Cafwyd noson ardderchog gyda Mrs. Lovatt yn dangos ffilmiau o daith ei merch yn Efrog Newydd, Jamaica a Bermuda. Diolchwyd gan Mrs. M. Lloyd Williams a Mrs. J.C. Williams, Bod-fair yn llywyddu.

GOBEITHLU CAPEL MAWR

Nos Lun Ionawr 17 am 6 o'r gloch cafwyd y Gobeithlu. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Bethan Parry Ael-y-Bryn. Cymerwyd rhan mewn canu gan Olwen Meredydd Jones, Gwenno Parry, Susan Wheldon Morris, Glenys Wyn Jones, Carys Pugh, Helen Wyn Jones, Siân Jones, Sandra Macguire, Lynette Evans, Manda McGuire, Eleri Roberts, Llinos Davies, Barry John Jones, Bethan Parry, Sharon Roberts, Gwawr Owen, Nia Wyn Jones, Marion Llwyd, Gwenllian Parry, Caryl Pugh, Einir Parry, Petula Williams Janet Evans, Delyth Jones. Cafwyd chwaraeon a stori gan Mrs. Catrin Roberts, Tŷ Capel a hi oedd yn cyfeilio. Llywyddwyd gan Mrs. W.O. Roberts, Llys Eiddon. Diweddwyd trwy gyd-ardodd gweddi gan Parch W.O. Roberts. Mewn cyfarfod arall dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Gwawr Owen, Rhos Elan. Dangoswyd dwy ffilm i'r plant "Bartimeus a Sacheus" a "Y Samaritan Trugarog" gan Mrs. Nancy Roberts, Llys Eiddon. Yr oedd y 'projector' yng ngofal Mr. John Williams, Gweledfa. Cyfeiliwyd gan Mrs. Catrin Roberts, Tŷ Capel. Diweddwyd trwy weddi gan y Parch. W.O. Roberts.

Y BAND

Nos Iau, Rhagfyr 16 cynhaliwyd noson o Tombola yn yr ysgol dan nawdd y Band a'r Pwyllgorau. Yr enillwyr oedd: Gillian Williams, Mrs. L. Jones, 5 Rhos Rhug, Mrs. Hefina Jones, 8 Rhos Rhug, Mrs. Gwyneth Jones, Bryn Heli, Dylan Williams, Awelon, Mrs. B. Jones, Ogwen, Mr. John Williams, Gweledfa, Mrs. Mair Jones, Ogwen Kevin Williams, Mrs. Heulwen Jones, 6 Glan Moelyn, Mr. Jim Jones, Dwyros, Mrs. Megan Williams, Tan-y-Coed, Mrs. Owen, 2 Glan Moelyn, Keith Jones, Dwyros. Diolchwyd i bawb am pob rhodd mewn arian a nwyddau hefyd i Mrs. Jean Williams a rhai o staff y gegin am eu help. Fe dynnwyd y 'Draw' Nadolig a'r enillwyr oedd: E. Thomas, Y Felinheli, Mr. Humphreys, Bethel G. Roberts, Llanrug, Keith Fretwell, Penygroes, Minffrwd, Llanfairpwll; Mrs. Oliver, C.&A Bangor; Miss E. Williams, Llanrug;

E. Williams, Bangor; T. Williams, Snowdon Railway; Wynne, Llanrug; E. Davies, Bro Rhythallt, Mrs. Jones, Waunfawr; Cemlyn Williams, Groeslon; Roberts, Tai Newyddion; A. Michael ATELC; Mrs. Jones, Market St. Caernarfon Diolchwyd i Mr. R. Jones Minffordd Terrace a Mr. Terry Ll. Jones Llys Elan am gymeryd gofal i drefnu'r 'Draw' a phawb a gyfrannodd ati. Cafwyd noson ddiddorol mewn Parti yng Nghwesty'r Goat Beddgelert nos Wener 17 pryd aeth aelodau'r Band a'r Pwyllgorau a llawer o'u ffrindiau allan i swper. Diolchwyd i Mrs. Joyce Jones am y trefniadau. Pnawn Sadwrn 18 cafwyd te parti Nadolig yn y Band Room; daeth Santa i mewn hefo ffrwythau a da-da. Mrs. Vera Williams, Awelon ofalodd am y gemau a'r dawnsio. Cafwyd eitemau gan aelodau ieuengaf y band. Canasant garolau dan arweiniad Mr. O. Jones. Diolchwyd i bawb am wneud y parti mor llwyddiannus. Bu'r band yn canu Carolau hefo oedolion ac ieuencid ardal Caeathro nos Fercher. Cafwyd canu da o amgylch y goeden Nadolig ar y sgwâr a phaned i orffen a phawb wedi mwynhau ei hun yn arw.

CYMORTHFA

Bydd y Cynghorwyr Gwyn O. Jones, Gwyndaf Jones ac un arall yn y Sefydliad Coffa o 10.30 tan 12.00 bore Chwefror 5ed.

DRAMA'R GENI

Perfformiwyd Drama'r Geni o waith y Rheithor gan blant Ysgol Sul, Eglwys Sant Mihangel yn ystod Gwyliau'r Nadolig ac yr oedd y cynhyrchu yng ngofal y Rheithor. Rhoes y plant neges y Nadolig drosodd yn eu ffordd naturiol eu hunain.

PANTOMEIM

Aeth aelodau'r Ysgol Sul Sant Mihangel i weld y Pantomeim 'Madog', yn Theatr Gwynedd a mwynhawyd y noson gan y plant a'r rhai mewn oed.

GWASANAETH CAROLAU

Cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau ar Sul cyntaf y flwyddyn newydd yn Eglwys Sant Mihangel. Y Rheithor a arweinai'r gwasanaeth a gwasanaethwyd hefyd gan ieuencid y band a rhoesant gyfrif da ohonynt eu hunain. Yr organydd yn y gwasanaeth oedd Miss Nerys Williams, B. Mus. Llanberis.

UNDEB Y MAMAU

Aeth aelodau Undeb y Mamau a'u cyfeillion i fwynhau eu parti blynyddol i Blas Tan Dinas a chafwyd amser da gan bawb.

CLWB BLODAU'R GRUG

Yn anffortunos fe ddaeth yr eira i rwystro cynnal cyfarfod blynyddol Clwb Blodau'r Grug. Bydd y Cyfarfod Blynyddol yn cael ei gynnal ar ddydd Iau 10ed Chwefror am 2.00 p.m. yn y Sefydliad Coffa. Er gwaethaf y tywydd gerwin fe ddaeth rhai o'r aelodau at ei gilydd a mwynhawyd te wedi ei baratoi gan amryw o'r aelodau.

CYSTADLEUAETH

Lle 'di fan 'ma?

GAWSOCH chi drafferth? Do? Cywilydd mawr i chwi. Tydach chi ddim yn gwybod am y'ch ardal y'ch hun! O'r llw a roddodd gynnig ar y gystadleuaeth dim ond llond dwrn o atebion cywir a gafwyd. Ys gwn i oeddach chi yn iawn? Wel dyma'r atebion:

Gorsaf Trên Cwm-y-Glo — wedi ei dynnu i lawr ers rhyw ychydig i wneud lle i'r ffordd osgoi.

Pont Charlie — yn croesi hen reilffordd chwarel ger Bethel.

Eglwys Nant Peris — "lle gorwedd llawer Sant".

Castell Bryn Bras Llanrug — un o'r tyrau godidog.

Hen Ysgol Brynrefail — llawer ohonoch wedi croesi'r rhiniog.

Tŷ Du Llanberis — Hen gartre'r Esgob Goodman.

Wel, ydach chi'n cicio'ch hunain? Cawn gystadleuaeth o'r math yma eto yn o fuan. Yr enillydd? Y cynnig cyntaf i ddod allan o'r het oedd eiddo: **LYNNE MORGAN, Llwyn Bedw, Bethel.**

Mae tocyn llyfrau gwerth £3 ar ei ffordd i chi.

MERCHED Y WAWR

Cyfarfu'r gangen nos Fawrth 10ed Ionawr gyda Mrs. Nansi Roberts yn y gadair. Y siaradwr gwadd oedd Mr. Emrys Evans, Monallt, Llanrug a rhoddodd sgwrs a dangos lluniau o Addurno Ffynhonnau. Diolchwyd gan Mrs. Enid Whiteside Thomas. Cydymdeimlwyd ag amryw o'r aelodau mewn gwaeledd. Penodwyd Mrs. Margaret Jones a Mrs. Ann Lloyd Griffith yn gynrychiolwyr ar Bwyllgor Arfon. Darparwyd cwpaned gan Mrs. Linda Jones, Mrs. Nan Roberts, Mrs. Ann Llwyd, Mrs. Joann Bolton a diolchwyd iddynt gan Mrs. Ann Lloyd Griffith.

Cynhelir cyfres o ddosbarthiadau gan y Dr. Eirwen Gwynn yn yr Ysgol Gynradd yn dechrau nos Fawrth 18fed. Hysbysodd yr ysgrifennydd iddi dderbyn sic o £6 gan y Cyngor Llyfrau Cymraeg am fod yn ail orau am werthu llyfrau Cymraeg a diolchwyd i Mrs. Margaret Jones yr ysgrifennydd am ei llafur. Bydd y cyfarfod nesaf ar yr ail nos Fawrth o fis Chwefror pan fydd Mrs. Lovatt, Berwyn yn rhoi sgwrs ar ofal am glyw plant yn ysgolion Gwynedd.

CODWM

Drwg oedd gennym glywed am Mrs. W.A. Jones, Y Dalar Deg wedi cael codwm egr a brifo'i

phen gymaint nes gorfodwyd iddi gael pwythau iddo. Brysiwch wella Mrs. Jones.

HAWL I HOLI

Cynhaliwyd cyfarfod o Blaid Cymru yn y Sefydliad Coffa nos Wener 14eg. Trefnwyd cyfarfod Hawl i Holi Cynghorwyr lleol y Sefydliad Coffa ar nos Wener 28ain am saith o'r gloch i drafod problemau lleol. Croeso cynnes i bawb.

DIOLCHIADAU

Dymuna Mr. a Mrs. A. Pritchard, Glanfa, Llanrug gydnabod yn ddiolchgar bob caredigrwydd a dderbyniasant gan gymdogion a chyfeillion yn ystod yr amser y buont yn yr ysbty ac ar ôl dod gartref.



DATGELIAD DRAENOG

Trist oedd clywed bod yn rhaid i gleifion yr ysbty yn Lerpwl wneud heb facwn ac ŵy i frecwast oherwydd yr argyfwng economaidd. Bellach, rhaid iddynt fodloni ar dost i frecwast.

Ôl-nodyn: Diddorol yw nodi bod y Frenhines y mis hwn wedi cael trênn preifat newydd sbon. Fe gostiodd y trênn £500,000 i ni.

Gwesty Dolbadarn

Tŷ

Rhydd-

Feddiant

Llanberis

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog

Aneuryn

Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd

CANOLFAN DRECIO

Holwch am ein

telerau rhesymol



DINORWIG

DIOLCHIADAU

Dymuna Miss Elizabeth Thomas, Llidiart y Clo, ddiolch o galon am bob caredigrwydd a dderbyniodd oddi ar law y meddygon a staff Ysbyty Môn ac Arfon, pan yno'n ddiweddar am driniaeth feddygol, hefyd am bob caredigrwydd gan y cysylltiadau teuluol a chyfeillion wedi dod adref o'r ysbyty.

Dymuna dinasyddion hŷn yr ardal ddiolch o galon i aelodau Clwb Snwcer Deiniolen, ac hefyd Glwb Ieuencid Dinorwig am eu anrhegion gwerthfawr dderbyniwyd trwy law y ddwy gymdeithas adeg y Nadolig. Fe'u gwerthfawrogydd yn fawr iawn.

CYFARFOD GWYLNOS

Nos Wener Rhagfyr 31 1976 yn y Ganolfan cynhaliwyd Gwylnos. Cymerwyd rhan mewn canu, adrodd a sgetsus amrywiol gan Mr. Evan B. Roberts, Mr. Owie Gibson, Mr. R.H. Williams. Misses Annette B. Roberts, Olwen Roberts, Marina B. Roberts, Clwb Ieuencid Dinorwig, Parti'r Gymdeithas, Mr. David L. Hughes, Mr. Robert Williams, Mrs. M. Hughes a Miss E. Wyn Jones. Y cyfeilyddion oedd Mrs. M. Hughes a Miss Annette B. Roberts. Yr arweinydd oedd Mr. O.R. Williams. Ef hefyd oedd yn gyfrifol am y rhan defosiynol. Talwyd diolchiadau gan Mr. Hugh Thomas.

O'R YSBYTY

Da gweld fod Mr. Owen Jones, 3 Bro Elidir wedi dod adref o Ysbyty Bryn Seiont, hefyd Miss Annie Jones, 6 Bro Elidir o Ysbyty Môn ac Arfon a Mr. John D. Williams, Ty'n Fawnog o Ysbyty Dinbych.

YN YR YSBYTY

Dymunir gwellhad buan i Mr. John H. Williams yn Ysbyty Bryn Seiont.

CYFARFOD GWEDDI UNDEBOL

Nos Iau Ionawr 6 dan nawdd Cymdeithas Undebol Lenyddol Dinorwig yn y Ganolfan cynhaliwyd Cyfarfod Undebol. Cymerwyd rhan mewn gweddio, darlleniadau a chyflwyno emynau gan Miss Ellen W. Jones, Mr. Gwilym Davies, Mrs. Eileen Thomas; Mr. a Mrs. John Peris Roberts; Mrs. John Roberts; Mrs. H.M. Roberts; Miss Marian Jones; Adrodd: Mr. Eddie W. Lewis; Mrs. Elizabeth Jones; Mr. O.R. Williams; Mrs. Jennie Williams. Traddodwyd anerchiad gan Mr. Hugh Thomas. Yr oedd y rhaglen yng ngofal y Parch. Ifor L. Williams (B) Bangor.

CYLCH TRAFOD

Nos Fercher Ionawr 12 yn y Ganolfan cychwynwyd Cylch Trafod Undebol i ymdrin â phroblemau Beiblaidd a chrefyddol. Mae'r cylch dan arolygaeth y Parch. Saunders Davies, Bangor. Fe'i cynhelir bob yn ail wythos ar nos Fercher.

MUDIAD ADFER

Ar nos Wener 17 o Ragfyr cynhaliwyd dawns Nadolig yn y Ganolfan Gymdeithasol gan Gangen Adloniant Adfer

O Gaban y Chwarel

DYMA benillion wedi eu hysgrifennu ar gyfer Eisteddfod y Chwarel ym 1937 gan ŵr sydd wedi dod yn un o brif lenorion Cymru heddiw — EMYR JONES, Betws-yn-Rhos (o'r Waunfawr gynt). Mae mwy o waith y llenor adnabyddus hwn i'w gyhoeddi ond dyma damaid i flasau:

DIWEDD MIS

Mae'n canu! ac mae'r sied yn troi
Mae'n Sadwrn Diwedd Mis;
Rhaid bod yn fachog neu mi fydd
Ein cownt yn llawer is,
Mae'n ddigon dyrys, Duw a ŵyr,
Ar ddau mewn cerrig gwael, —
Dibynnu'n llwyr ar glwt neu ddau
Gan ambell Gristion hael.

Wel rwan, Rhisiart, tyn dy gôt,
Mae gennym lot o waith;
'Dyw'r prinsus gorau'n ddim ond pump
A'r dytchis ddim ond saith.
Mae'n anodd gwybod beth i'w wneud
'Rwyf bron â chymryd rhaw
I riglo'r wal, mae'n anodd iawn
Gwastau ynghanol baw.

'Rwy'n credu, Dic, mai chwilio am gar
Yw'r gorau peth i ti,
Mae'n well na berfa o beth diawch —
Mae yn y seiding dri.
Mi slogia inna 'mlaen fan hyn
Nes doi di yn dy ôl,
A thyrd â'r car o flaen y wal
O gyrraedd llafna' ffôl.

Mae'n fore clos a chroen fy nghefn
Yn glynu wrth fy nghrys;
Wrth riglo tomen fawr fy hun
'Does ryfedd mod i'n chwys.
Ond dyma Dic yn dod â'r car
Trwy ddrws y sied gerllaw,
Rhaid pydru arni yn ddi-stop,
A 'does dim tryst am law.

Wel, cyfra di y gora', Dic,
Mi gyfra inna'r ail,
A chofia eu cymysgu'n dda —
Mi holltodd rhai fel dail.
Mae'r cerrig mana' yn o lew,
Ond am y cerrig bras,
'Does dim ond gwyrrh all setlo rhain,
Wel, wir, mae isio gras!

Faint ydi'r ugian deuddeg, Dic?
Myn cebyst, saith-a-dwy;
Rhaid cael tri mwrw drwy ryw sgil
Neu fyned ar y plwy.
Mae acw glwt o seis go lew,
Mi rhown o ar y bwrdd
I gael pen llifiad dan y cŷn
A llifio'r drwg i ffwrdd.

Mi neith y tro heb newid lli
I orffen rhain, 'rwy'n siŵr;
Mi gawn li newydd fore Llun —
Ble mae y bwced ddŵr?
Stryffaglio wedyn am y tap
A'r bwced yn fy llaw,
Ond dyna ergyd yn y twll —
Mae'n amsar panad naw.

Mae awr a hanner wedi mynd
Cyn imi fedru troi,
Ond rhaid cael tamaid bach ar frys,
A dod yn ôl dan gnoi.
Mae'r clwt yn barod erbyn hyn
A llifiad ar ei ben;
O diolch am gael rhoddi pwys
Fy nghorff ar flocyn pren.

Mi holltaf hwn am ddau-dew-wyth,
'Does wybod yn y byd
Beth ddaw ohono — Wel, myn diawl
Mae pefal ar ei hyd!
Ble cawn ni ddeunydd arall, Dic?
Mae'r pilars yn rhy gul;
Mae'n debyg iawn i fis Jac Do
Er gweithio fel dau ful.

Mi af i ofyn i Wil Preis,
Mae o mewn cerrig da,
Ond bydd gan hwnnw 'ffrindiau' lu
O'i gwmpas heddiw'n bla.
Dos ato, Dic, mae'n siŵr y cei
Well croeso na gawn i,
Mi bechais yn ei erbyn ddoe
Wrth ddadlau ganiad tri.

Cyn iti fynd... Y nefoedd fawr!
Beth wnest ti i dy fys?
Wel, Duw â'th helpo, dyna hi,
Bob amser pan fydd brys.
Hen gyt go hegar hefyd, Dic,
Tyrd, brysia i'r mashŷn,
Gad imi ddal dy gôt, rhen law,
A thynnu'th gara' lin.

Yn ôl drachefn i'r wal fy hun
I gario beichiau dau,
A'r marciwr bach yn gweiddi,
"Cownt!"

A minnau heb wastau.
HY! dacw lwythl a'r car, mwyn tad
Yn union ar ei ffordd.
Slap heibio wedi dod yn ôl
A thorri coes yr ordd!

Mae'r trydydd wedi dod i drefn
Yn rhyfedd fasul un,
Ond bellach rhaid mynd am fy nghôt,
A'u gadael tan ddydd Llun.
Er imi faglu'n ôl a blaen
A chael fy aml gwyp, Bydd rhwyrai'n gofyn fore Llun,
Be sy 'rhen Em, mis pump?

Fel hyn o fis i fis y daw
Helyntion pawb ynghyd.
'Doedd ryfedd inni alw hwn
Yn Sadwrn Diwedd Byd.
Rhyw weithio'n ddiwyd mewn un lle
A'r meddwl yn fan draw;
Dal ati'n hwyr, a'r drafael bron
O'r golwg yn y baw.

A gorchwyl chwyslyd wedyn fydd
Eu llwytho ar y car,
A'u gweithio i'r clwt peilio mawr
Gan wyllo pob pen bar.
Ac os mai berfa fydd dy ran,
Un ansad iawn yw hon,
Ychydig iawn wna iddi droi,
'Nenwedig ar groes gron.

Drwy'r gaeaf oer â'i rewynt main
A misoedd poeth yr ha'
Mae hwn a hwn mewn clogwyn drwg
A'i frawd mewn clogwyn da.
O brysied dydd y gwelir pawb
Yn gweithio am 'run pris,
Fel na bydd angen maeddu corff
Na begio ddiwedd mis.

CARIO CERRIG O GILFACH DDU I HAFOD OWEN



O'r chwith i'r dde: Gruffydd Eirwyn (Hughes); Now Hughes, Bob Roberts; Cyril Owen; Robin Bach Dre; William Arthur; Gwilym Owen; Wil Williams. Llun trwy garedigrwydd W. Williams.

GADAEI CARTREF

Wedi blwyddi rai o dangnef
Ar yr Aelwyd dawel glyd
O, mor anhawdd gadael cartref
A wynebu ar y byd.

Cymysg gofion gei i'th ddilyn
Am yr adeg ryfedd fyth
Pan ehedaist fel aderyn
Y tro cyntaf tros y nyth.

Gadael un yng ngrym ei chariad
Fu'm dy wyllo rhag pob cam
Profai'r deigr yn ei llygaid
Angerddoldeb serch dy fam.

Serth yn wir yw llwybrau bywyd
Geirwon, lawer pryd a cham
Nerth i'w cerdded aml ennyd
Ddaw o gofio geiriau mam.

Cofia machgen, wrth it adael
Glân rinweddau tir dy wlad,
Cofia wersi yr hen aelwyd
A chynghorion doeth dy dad.

Gwylia bellach rhag pob trachwant
A themtasiwn o un rhyw
A chei wobwr, bythol lwyddiant,
Calon lân, a bendith Duw.

Buddugol yn Eisteddfod y Calan
Dwyran, Môn, yn y flwyddyn 1922
gan Tom Williams, 'Gwelfor', Bethel
pan oedd yn 21ain oed.

SIBRYDION O'R YSGOLION

DDOE

A

HEDDIW



Mr. Thomas, gweinidog gyda'r Wesleaid yn Llanberis, gydag aelodau'r Urdd tua 50 mlynedd yn ôl. (Y llun trwy garedigrwydd Mrs. T.A. Maxwell, Argoed.)



Aelodau'r Urdd Ysgol Dolbadarn eleni. Tua 100 o aelodau.

LLANRUG DDOE A HEDDIW



ADRAN LLANRUG 1927: Dick Francis Roberts, Katie Williams, Mair Parry, Myfi Roberts, Evelyn Bicker, Eirianwen Hughes, Katie Wyn Jones, Megan Pritchard, Dora Jones, Ceinwen Roberts, Eluned Roberts, Emrys Owen, Elizabeth Jones, Meirwen Roberts, Mary Grace Williams, Buddug Williams, Gwladys Medwen Jones, Mary Owen, Megan Jones, Nellie Williams, Diana Whiteside Griffith, Gwilym Frank Hughes, Alf Jones, Myrddin Parry, Meurig Owen, Meinir Evans, Emrys Williams.



ADRAN LLANRUG 1976

Diolch i Mrs. Whiteside Thomas am yr enwau.



Ar y chwith, Clwb Ieuenctid Llanrug yn mwynhau eu hunain yn eu Cinio Nadolig ym Motel Tynymaes, Bethesda, ynghyd ag Emlyn Hughes (chwith) a Dilwyn Jones (de), dau arweinydd y clwb a threfnwyr y noson.

Eisoed y gaeaf hwn cafwyd Taith Gerdded Noddedig, Ffilmiau ar Ddiogelwch y Ffyrdd gyda Gwyn-daf Jones, ffilmiau ar waith yr Heddlu gyda'r Rhing-yll Dditectif Selwyn Jones, ymweliad â Thwrnameint Chwaraeon Dartiau, Tennis Bwrdd, Gwyddbwyll ac ati yn Bontnewydd, a llu o nosweithiau difyr eraill. Mae'r Clwb yn cyfarfod bob nos Fawrth a nos Iau am 6.30pm yn Ysgol Glanmoelyn.

Ysgol Brynrefail

EISTEDDFOD YR YSGOL

Ail-agorodd yr ysgol am Dymor y Pasg ddydd Iau, Ionawr 6ed, a'r digwyddiad pwysigaf yn ystod y tymor hwn fydd yr Eisteddfod. Mae prysurdeb mawr wedi bod y tu mewn i furiau'r ysgol yn ystod y pythefnos diwethaf gydag

ymarferion ar gyfer corau deulais, corau pedwar llais, partion cerdd dant a chyd-adrodd a dramâu. Bydd llawer o gystadlu unigol hefyd. Cynhelir yr Eisteddfod eleni ar ddydd Iau, Chwefror 10ed.

PENODI ATHRO NEWYDD

Yr wythnos diwethaf penodwyd Mr. Gomer Davies, M.Sc., pennaeth adran physeg Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy, fel pennaeth adran physeg Ysgol Brynrefail. Y

mae Mr. Davies yn hen ddisgybl o Ysgol Brynrefail a bydd yn dilyn Mr. Gwyn Ellis, dirprwy brifathro'r ysgol, sydd yn ymddeol ddiwedd y tymor hwn. Bydd Mr. Davies yn dechrau ei swydd newydd ym mis Mai.

YSGOL FEITHRIN LLANBERIS

Cynhaliwyd te parti i blant yr ysgol yn ddiweddar, yn y Ganolfan Gymdeithasol, Llanberis Daeth Siôn Corn ag anrheg i bob un o'r plant. Trefnwyd y parti gan famau'r plant.

gorau i'r ffyrdd tarmac yn fuan. Os ceir damwain rhaid derbyn hyn fel 'ewyllys Allah' a gobeithio'r gorau, gan nad oes yswiriant modur o gwbl!) Mae'n cael ei ystyried yn sarhad ar awdurdod y penteulu i'w ferch fynegi awydd i gael swydd gyflogedig a chynnal ei hun — bydd hyn yn golygu newidiadau yn y teulu traddodiadol Omani oherwydd mae mwy a mwy o ferched yn cael addysg.

Diddorol oedd gweld, ym mhentrefi cyntefig Oman, blant yn chwarae'r un gemau â ni yn ein plentyndod. Marblis, 'hopscotch' a'r gêm honno a ddaeth yn ôl i'm cof — rhoi llinyn hir rhwng dau dun a'i ddefnyddio fel teliffon. Ar ddiwedd diwrnod o ddringo yn Jebel Karmadil, i'r de o Muscat, 'roedd criw ohonom yn dod heibio pentref bychan, hunan gynhaliol yng nghesail y wlad, a'r plant fel arfer yn rhedeg i'n cyfarfod yn wên i gyd. Wrth ffurwelio chwarter awr yn ddiweddarach 'roeddem wedi colli ein rhaff ddringo ac wedi dysgu'r plant i sgipio — 'roedd chwech ohonynt yn rhes hapus a'r rhaff yn troi'n ffyrnig. Mae'n siwr eu bod yn dal wrthi!

Yn eglwys Brotestanaidd Ruwi, cyfarfum â llawfeddyg o India oedd yn gweithio mewn canolfan i drin clefydau'r llygad — trachoma a glaucoma yn gyffredin iawn. Yn ddiweddarach clywais ei fod wedi gwrthod swydd uchel yn Ysbyty Moorfields yn Llundain er mwyn cael aros yn Bahla, pentre yn yr Interior, i wella gwasanaethau iechyd i blant. Mae'n olygfa eitha cyffredin i weld plentyn yn darllen i'w rieni, neu yn ysgrifennu llythyr iddynt — rhyw newid braidd o'r hen ddihareb "Yr hen a wŷr, yr ifanc a dybia".

'Doedd mis ddim digon o amser yn Oman, a dweud y gwir. Ond y wers yn sicr oedd:

Gwna y gorau o'r hyn sydd gen ti + a phaid â cheisio mwy." Beth am hwnna yn 1977? Pob hwyl tan y mis nesa.

Maes y Merched

BYW NEU BOD?

AR DDECHRAU blwyddyn mae'n debyg y byddwch yn cael pyliau o synfyfrio a dyfalu lle'r aeth 1976 a beth sydd gennych i ddangos amdani — rhyw ricap fel petai.


Peidied neb â bod rhy llym yn ei hunan asesiad oherwydd mae'r rhan fwyaf ohonom, yn ôl y seicolegwyr, yn gwneud cyfiawnder â'n galwedigaethau ac yn mwynhau canlyniadau'n llafur, boed yn y cartref, yn dwyn plant i fyny, neu mewn swyddi cyflogedig. Dylem gyfrif ein gwerth yn ôl ein hangen ar eraill; er enghraifft, os ydych yn fam ifanc, dyfalwch sawl person fasa'n diodde petaech yn eich gwely am wythnos a chyfrifwch y draul ar garped y grisiau yn y cyfamser fel arwydd fod eich gwir angen gan y teulu, petai ddim ond yn y gegin!

Yn lle cyfrif y pethau materol y buom mor ffodus o'u casglu o'n cwmpas dros y blynyddoedd, fel arwydd o'n gwerth, tybed na ddylem asesu ein hunain drwy gryfder ein cysylltiadau â theulu, ffrindiau ac â dynolryw yn gyffredinol?

Yn ôl hen nain imi 'does angen ond tri pheth i fyw; iechyd, synnwyr digrifwch a'r gallu i fyw hefo chi eich hun yn ogystal ag eraill o'ch cwmpas. Arian, meddech chi, beth am arian? Rhaid cael hwnnw, wrth gwrs bod, ond fyddech chi, yn hollol onest 'rwan, yn rhoi arian o flaen y tri arall, petai'n rhaid i chi ddewis?

Dyma i chi gipolwg ar fywyd merched a phlant y tu allan i Gymru, mewn gwlad gyntefig yn Ne Arabia, Y Sultanate of Oman, gwlad sy'n datblygu'n gyflym er 1970 pan ddaeth Sultan Quaboos yn frenin. Deuthum yn ôl oddi yno ddechrau'r flwyddyn wedi

dysgu gwers; er fod yr Omanis yng ngolwg llawer o Ewropeaid heb ddim, mae'n sicr fod ganddynt gyfoeth nas gwyddom ni amdano, ac y dylem efallai ail-gyrraedd amdano. Mae'r merched Omani yn ddi-ymhongar, yn hynod o dlws ac annwyl ond yn cael eu hystyried yn israddol yn y gymdeithas. Er enghraifft, mae dau ddrws i dai yr Omanis — un llydan, addurnedig i'r dynion a'r llall i'r merched, ac os daw gwesteion i'r tŷ gofynnir i'r wraig baratoi ymborth ond ddaw hi ddim i olwg yr ymwelwyr o gwbl, er ei masg du. Mae'n gyffredin yn Oman i ferch ddal drws yn agored i'w gŵr, i gario'r paciau trymaf ac hefyd i gerdded ar ochr allan y palmant fel os oes rhywun yn mynd i gael ei daro gan fodur, y ferch fyddai'r golled leiaf! (gyda llaw mae safon dreifio yn echrydus — er fod gennyf drwydded dros dro i ddreifio Susuki 'four wheel drive' rhois y



Hei! Mae'r Hebog ar werth

Pris 8c

Holwch amdano yn yr ysgol

Neu cysylltwch â GWASG GWYNEDD, Nant Peris (Ffôn : Llanberis 733)

Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



CROESO i'r 'Llannerch' unwaith eto, — 'dydi hi ddim yn rhy ddiweddar i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd, a phen blwydd hapus i'r *Eco* un pryd. Sobrwydd mawr, i feddwl bod *Eco* r Wyddfa yn flwyddyn oed ynte — bobol, 'dydi amser yn fflio!

Balch iawn oeddwn o glywed enwau plant o Ddeiniolen yn cael eu cyhoeddi o lwyfan Eisteddfod Bwlchtocyn. Ardderchog blant! Daliwch ati! Deallaf i mi roi gwobr i chwithau am soned, Mr. J.D. Evans, Clwt-y-Bont. Llongyfarchiadau cynnes — beth am i chwi ei hanfon i'r 'Llannerch' fel y gellir ei chyhoeddi.

CLAMP O GWESTIWN

Diolch o galon i chi D.J. am ddod i gysylltiad â mi ynglŷn â'r 'clamp o gwestiwn' y cyfeiriais ato yn rhifyn y Nadolig. Wnês i ddim breuddwydio mai merch oedd yn cuddio tu ôl i'r ddwy lythyren chwaith. Hwyl fawr i chwi ar eich ymchwil DJ, ac ymfalchiwn ninnau fod yr *Eco* yn cyrraedd Dyffryn clodfawr Clwyd, ac yn gallu bod o gymorth i rai yno.

Fe gytunom, DJ, y dylid cyflwyno barddoniaeth i blant drwy ei lithro i mewn yn naturiol i wersi eraill megis — hanes, daear-yddiaeth ac yn sicr natur. Y ffordd i fagu atgasedd mewn plentyn at farddoniaeth yw drwy ddweud wrtho — "rwan trowch i dudalen arbennig — 'rydan ni am gael gwers ar farddoniaeth", — ac yna trafod cerdd yn oeraidd fesul llinell — nid fesul brawddeg hyd yn oed weithiau.

Ac yna wrth gws — penllanw y diflastod — "copiwech y gerdd i'ch llyfrau — dysgwch hi — bydd prawf yfory."

Mae yna amryw o ffyrdd diddorol i 'lithro' barddoniaeth i mewn i wersi, ac i ennyn diddordeb plentyn tuag at farddoniaeth. Y ffordd ddelfrydol wrth gws, yw drwy geisio arwain y plant i lunio eu delweddau a'u cymariaethau eu hunain, drwy wneud gwaith creadigol. Mae'n bosibl gwneud hyn yn llwyddiannus hefo plant ambell dro, a chael perllau bach ganddynt, a byddant hwythau yn mwynhau gwneud y gwaith ac yn ymddiddori mewn barddoniaeth heb yn wybod iddynt.

Os cyflwynir barddoniaeth yn naturiol a diddorol i blentyn — bydd yn sicr o'i ddysgu heb orfodaeth o gwbwl. Diolch unwaith eto DJ am godi'r cwestiwn, a phob llwyddiant ichi. Mae testun traethawd hir yn y cwestiwn yn sicr.

CERDD SECSI!

Pwy anfonodd y gerdd 'Anobaith Cariad' i mi beth amser yn ôl bellach? 'Does dim enw wrthi — dim ond marc post Wrecsam. Cerdd 'secsi' ydi hi — os gwn i ai tynnwr coes sy' yma? Anfoned ei enw os yw o ddifri. Rhaid bwrw i mewn i'r fasedd

gerddi.

Diolch i chi Emrys Owen, 51 Bro Rhythallt, Llanrug am eich ymgais i ganu clodydd Bwlch y Nant. Gwelais gyfeirio at y bwlch fel Bwlch Nant-y-Mynach yn rhywle — fedr rhywun roi goleuni i mi ar hyn? Mae tipyn o straen 'dringo' i'w deimlo yma Emrys, ond na hidiwch, fe gytunwn â chi — " 'does unman drwy'r byd â golygfa well' — yn enwedig felly y dyddiau hyn pan mae'r clogwyni "oill yn eu gynau gwynion."

TRWY BAS LLANBERIS

Culffordd rhwng 'sgythrog glogwyni, Hynaf gestyll cadarnaf Eryri, A'u hagrwrch yn creu ei thlwsni A welir heddiw wrth ei throedio hi.

Ar amrantiad dyma'i gogwydd A'r olygfa yn syfrdanol newydd, I'r praidd ar lethrau'r mynyddoedd Mae meysydd gwyrddion ger llonydd lynnoedd.

Ni welir golygfa debyg Er crwydro drwy bob congol weledig, Himalayas a'r Rockies bell: 'Does unman drwy'r byd â golygfa well.

"Y Ci Defaid" a roddodd ysbrydoliaeth i chi Mrs. Vera Hughes, Llanberis. Rhoesoch ganiatâd i mi dacluso tipyn ar y gerdd, a cheisiais wneud hynny heb newid fawr ar eich syniadau na'ch odlau gwreiddiol chwi. Anelwch at gynildeb.

CI DEFAID

Traed o felfed
A llygaidd clir,
Mot yw'r ci gorau
Drwy'r holl sir.

Ci heb ei ail,
Un ufudd dros ben,
Ei gôt yn ddu
A'i gynffon yn wen.

"Gorfadd — Dos
Tyd yma — i lawr,"
Ond paid â meddwl
Y cei di seibiant 'nawr.

Rhaid cyfri'r defaid
A marcio'r wŷn
A dacw'r ddafad ddu
Yn cuddio'n y llwyn.

Bod yn fugail
Yw fy nymuniad i,
A chael rhodio'r brynau
Hefo Mot y ci.

I gloi am y tro fe gewch chithau ein sobri ni Harri Williams, Gerlan, Bethesda hefo'r gerdd hon — "Llais o'r Bedd". Diolch i chi am droi i mewn.

LLAIS O'R BEDD

"Nid oeddwn i ond saith"
Yn iach a hoenus —
'Roedd Hiroshima gynt
Yn drychinebus.

DYMA hi'n gyfnod perfformio unwaith eto ar Gwmni Drama Llanberis. Ar ôl eu llwyddiant ysgubol y flwyddyn diwethaf daeth ceisiadau o bell ac agos am eu gwasanaeth y tro hyn. Maent am fentro cyn belled â Glynceiriog! "Llaeth a Mâl" oedd eu dewis y tro yma. Drama wedi ei hysgrifennu gan E.B. Byron Jones yn seiliedig ar hanes teulu o Gymru wedi ei heglu hi am Lundain i werthu llefrith! Comedi mewn tair act yw hi ac yn ôl y cynhyrhydd Mr. Myrddin Owen "dylai apelio at y gynulleidfa yn fawr." Bydd eu perfformiadau cyntaf yn Llanberis ar nos Fercher 9fed o Chwefror a nos Wener 11ed o Chwefror.

Er nad oes lle addas iawn i berfformio drama yn Llanberis — wyddoch chi mai yma y cyfansoddwyd ac y perfformiwyd y ddrama gyntaf yn Gymraeg. Dyma ddywed T.J. Williams yn ei lyfr "Hanes y Ddrama Gymreig":

Saith fyddaf i am byth,
(Rwyf wedi marw),
Cans nid heneiddiaf mwyr
Mewn beddrod garw.

'Roedd cannoedd fel myfi
Ym mlodau'u mebyd,
Faluriwyd yn y fan
Gan fom ddychrynlyd.

Efallai fod Efô
Yn distaw wyllo,
Ac yn cofnodi'n ddwys
Ddydd fy noswyllo.

Os oedd y Crëwr Mawr
Yn dyst o'r cyfan,
Pam gwnaeth O ganiatau
Y weithred aflan?

Os rhaid oedd cario croes
Fel gwnaeth y "Dwyfol,"
Mae rhywbeth mawr o'i le
Rhwyng bodau dynol.

Hwyl fawr i chi
Selwyn

ENILLWYR Y LLINELL GOLL

Y dair linell goll orau yng nghystadleuaeth fawr y Nadolig oedd eiddo "Chwaer Herbie" — Mrs. Mary Lloyd Williams, Llanrug.

"HRJ" — Mr. Hugh R. Jones, Bod Fair Llanberis.

Mae'r ddau yn garedig iawn yn dychwelyd y wobwr.

Ond beth am "Arthur Afallon"? Nid yw wedi datgelu ei enw iawn i'r *Eco* eto. Deudwch wrtha ni pwy ydach chi Arthur! Mae £1 yn eich aros.

MODURDY
MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans

DECHRI DDRAM LLAN



CWMNI DRAMA PONTR

Ffurfiwyd y cwmni ym M o dan gyfarwyddyd Mr. T dyma ddarlun o'r cwmni c ariad Arall i Gymro'.

Rhes ôl: Miss F R.T. Griffiths, Penbuarth; eilydd); Humphrey Owen, L Rhes Ganol: G.H. Robert Afallon; Tom Jones, Tydd Llys Meirion.

Rhes blaen: Miss M.M. Roberts, Bronant.

Erbyn y flwyddyn 1936 yr oedd y cwmni wedi perfformio deuddeg ar hugain o ddramâu ac yn y penillion canlynol a gyfansoddwyd gan Mr. H. Owen, Isallt — ar achlysur o gyflwyno cadair i Mr. Tom Jones fel gwerthfawrogiad o'i waith gyda'r cwmni — enwai pop un o'r dramâu.

Mae pawb sydd yma heno
Yn hollol o un fryd
Yn dweud fod Tom yn haeddu
Cael cadair esmwyth glyd.

Bu'n hynod ei amynedd
Yn dysgu nifer fawr
I actio'n dda bob drama
A nodir yma'n awr.

Bu sôn am 'Arian Modryb'
Ond cwestiwn 'Eiddo Pwy'
Yw'r 'Can Punt' roddwyd ganddo
I 'Ficer Newydd' plwy.

'Nos Sadwrn' yn 'Y Gwanwyn'
Bu 'William' yn 'Troi'r Tir'
I'r 'Tatws Newydd' dyfu
'Wel, Wel' mae'n eitha gwir.

'Atgofion am 'Ddieithrydd'
A gadd 'Y Fargen' fawr
Ar 'Noson o Farrug' oer
Yn 'Lluest y Bwci' i lawr.

Marw wnaeth 'Y Tarw Coch'
'Ble Ma Fe' wyddoch chwi
'Dwywaith yn Blentyn' ydyw
Twm Huws a'i ddagrau'n lli.

EUAD Y IA YN BERIS



THALLT gan Emrys Owen

ontrythallt yn y flwyddyn 1921
m Jones, Tyddyn Rhythallt a
taf, pan yn perfformio 'Dyrch-

rie Thomas, Hedsor Villa
Miss A.J. Owen, Ceulan (Cyf-
lt.

Llys Meirion; Miss Hughes,
Rhythallt; Miss M.L. Roberts,
es, Tyddyn Rhythallt; R.Ll.

Haws ydoedd 'Coron y Bardd'
I'w hennill meddai fo
Na'r 'Matchmaker' honno gynt
Fu'n 'Toddi'r Ia' wel O!

'Y Ddraenen Wen' ddug anlwc
Yw credo llawer un
Tybed cred 'Y Glöyn Byw'
Yn wir waeth ganddo 'Pun'.

I lawr 'Yng Nghysgod y Cwm'
Arlunydd paentio wna
'Y Llun Yna' mhen blynyddoedd,
Bydd iddo enw da.

'Y Darluniau Byw' ddug 'Siom'
Meddai'r 'Meistr y Tŷ'
Ond 'Talu'r Gymwynas' Tom
A fydd r'ol esgyn fry.

'Deufor Gyfarfod' yma
Arddwr gwych y Radio
I roddi 'Dyrchafiad iti,
Un arall i Gymro'.

Perfformiai'r cwmni ar y
cychwyn yn hen Neuadd yr
Eglwys a byddai'r lle yn orlawn
bob perfformiad. Yn ddiwedd-
arach symudwyd i Ffestri ym
Mhontrythallt ac yno perfformio
ar ddwy noson, fel arfer Nos Iau a
Gwener. Perfformiodd cwmni'r
Bont mewn llawer o bentrefi o
Lanfairfechan hyd at Benrhyn-
deudraeth a Chricieth.

Parhaodd i berfformio hyd at y
rhyfel yn 1939 ac yna am ychydig
flynyddoedd wedi hynny.

"Yn y flwyddyn 1879 bu Beriah
yn fuddugol ar "Y Chwareuaeth
Gymreig orau yn ôl dull Shakes-
peare". Y ddrama oedd
"Glyndŵr". Yn Llanberis y
perfformiwyd hi gyntaf yn y
flwyddyn 1881 ac ymhlith y rhai
oedd yn cymeryd rhan ynddi yr
oedd R.E. Jones, M.T. Jones, T.E.
Jones (Ap Glaslyn), D.R. Griffith
(Granville fab) a Miss Gwayney
Griffith Cawsant lawer o wrth-
wynebiad gan nifer, ond nid yr
holl o'r arweinwyr crefyddol yn y
lle, ond er yr hefru fu arnynt
ffaith nodedig yw fod "hogiau y
ddrama" fel y'u gelwid mewn
gwawd, yn arweinwyr cymdeith-
asol yn Llanberis cyn pen deng
mlynedd ar ôl hynny."

Tydi'r oes wedi newid — a
hynny er gwell (ym myd y
ddrama, beth bynnag). Hwyl i
gwmni Llanbêr ar eu drama
newydd. Mae ganddynt dipyn o
draddodiad i'w gadw yn 'toes?

Agor Ffiniau'r Gorffennol

gan Mary Lloyd Williams

Dyma rai eto o englynion o gopi fy
niweddad dad Glan Rhyddallt.

IONAWR OER 1936

Doed Ebrill i'm dadebru — a hafaidd
Fai hefyd i'm c'nesu:
Er clyd wla'n a thân a thŷ,
Yr annwyd sy'n fy rhynnu.

DINORWIG DAN EIRA 1944

Hogiau'r Chwarel garcharwyd — ag eira
Eu goror dlos guddiwyd:
Er pae ac aur pwy a gwyd
O'i wely cu a'i aelwyd?

Chwerw le hyll yw chwarel ia,
Llechi oer a lluwch eiral

O'r awel rhag fy rhewi
Rum a mêl rydd rym i mi.

Y DWYREINWYNT 1909

Y Dwyreinwynt dirinwedd —
ni châr neb
Ei chwyrru ubain rhyfedd:
Hwn yrr fil i gynnar fedd,
Yn ddelwau o'i ddialedd.

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo

Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR

CADW GWENYN

gan Islwyn Williams, Godre'r Coed, Brynrefail

SGWRS hynod o felys gyda chyfaill a oedd â phrofiad
helaeth o drin gwenyn a ddaeth â mi i ymddiddori ac i
ymchwilio ymhellach ac yn ddyfnach i'r posibilrwydd o
fentro ar haid fy hunan.

Menter beryglus braidd, gallaf eich sicrhau, i un di-brofiad, yw
ymgymeryd â cheisio deall a thrin y creaduriaid rhyfedd hyn. Onid
dyma'r pryfed sydd wedi achosi aml i floedd o enau llawer ohonom —
creaduriaid mae pawb am eu hosgoi a diflannu o'u gafael yn ystod
misoedd gwresog yr haf? Ie, ond efallai nad ydym yn meddwl am yr un
math o wenyn yn union. Y pryfetyn y byddwch yn dianc rhagddo yw'r
creadur mawr hwnnw a fedd y streipiau du a melyn amlwg — dyna'r
gwenyn gwyllt. Ond nid creadur diniwed chwaith, ar unrhyw gyfrif,
mo'r gwenyn dof.

Ceir nifer o fathau ohonynt a'u
hymddangosiad yn bur wahanol.
O wledydd gogleddol Iwrop cawn
y gwenyn tywyll ei liw. Gall fod
yn frown tywyll neu hyd yn oed
yn ddu. Brown golau neu oren yw
lliw streipiau y rhai deheuol, ac
mae'r gwenyn a ddaw o'r Eidal yn
meddu llinellau melyn gwan, ond
os gwelwn rhai gyda llinellau
llwyd mae'n sicr mai i'r gwledydd
dwyreiniol y perthynant. Yn
anffodus, nid oes gwenyn
Prydeinig yn bod mwyach gan
iddynt gael eu difetha'n llwyr o
ganlyniad i glwyf heintus yn
nechrau'r ddeunawfed ganrif. Y
gwenyn sydd ar gael ym Mhrydain
heddiw yw'r rhai sydd wedi eu
'croesi', ac er eu bod yn aml yn
gallu bod yn flin a phigog, maent
yn gasglwyr mêl o'r radd flaenaf.

HANES CADW GWENYN

Ers canrifoedd bellach, bu cadw
gwenyn i'r pwrpas o gynhyrchu
mêl yn grefft arbennig gan ddyn.
Yn ôl hen hanes, dywedir i'r
syniad o'u cadw mewn cwch
darddu o'r ffaith mai mewn
boncyffiau gweigion hen goed y
llechai'r heidiau. Torrwyd boncyff
o'r fath a'i osod ar wastad, a
gwelwyd fod ei ffurf yn debyg i
gwch wyneb i waered. Ers hynny,
bu datblygiadau graddol, hyd nes
cafwyd goleuni pellach ar gartref
y gwenyn gan ŵr dall. Gŵr o'r
Yswistir ydoedd o'r enw Francois
Huber, ac ef a greodd y cwch
gwenyn ymarferol cyntaf tua
diwedd y ddeunawfed ganrif. Yn
naturiol, bu nifer o welliannau i'r
cwch ers hynny, ond mae'r
cychod a ddefnyddir heddiw yn
adlewyrchu eu dyled i'r gŵr hwn.

GWERTH ARBENNIG

Beth bynnag yw eich barn am y
gwenyn sy'n eich poenydio o dro i
dro, mae i'r gwenyn dof sydd yn
cartrefu mewn cwch eu gwerth
arbennig. O'r holl filoedd o
bryfetach sydd i'w cael ar hyd a
lled y byd, dim ond dau fath
ohonynt sydd yn cynhyrchu
rhywbeth o wir fudd i ddyn, sef y
pryf-sidan (silkworm), a'r
wenynen.

Tystia llawer mai pwrpas mwyaf
y gwenyn yw ffrwythloni
planhigion, ond yn sicr eu prif
werth i'r mwyafrif yw eu gallu
gwyrthiol i gynhyrchu mêl, ond
yn ogystal gall wneud cŵyr ac yn
rhyfedd iawn, gall gynhyrchu
ychydig sidan hefyd.

(i barhau)



STORFA

**Mace
S.&E.
Jones
Llanrug**

FFÔN: Caernarfon 2790

BLODAU A FFRWYTHAU
YW EIN
HARBENIGRWYDD



S. JONES

CYFANWERTHWYR

FFRWYTHAU

(WHOLESALE
FRUITERER)

Y STORFA

LLANRUG

FFÔN

CAERNARFON 2790

CWM-Y-GLO

DRAMA'R GENI

Perfformiwyd Drama'r Geni gan blant ysgol Sul Sant Gabriel yn ddiweddar. Addysgwyd y plant gan Mrs. J.E. Watkins ac athrawon yr Ysgol Sul. Fel arfer cafwyd perfformiad â graen arno. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Rheithor a'r organyddion oedd Miss Ceridwen Hughes a Miss Susan Owen.

TE PARTI'R PLANT

Mwynhaodd plant Ysgol Sul Sant Gabriel eu te parti blynyddol ar ddydd lau olaf yr hen flwyddyn. Darparwyd y wledd gan athrawon yr ysgol Sul a rhieni'r plant. Yn canlyn caed chwaraeon o dan ofal y rhieni.

GWYLNOS

Cynhaliwyd yr Wylnos fel arfer yn Eglwys Sant Gabriel ac arweinwyd y gwasanaeth gan y Rheithor a chymerwyd rhan gan amryw o'r gynulleidfa. Yr organydd oedd Miss Ceridwen Hughes.

UNDEB Y MAMAU

Cynhaliwyd cyfarfod i aelodau Undeb y Mamau yn ddiweddar yn Ysgol Cwm-y-Glo. Arweinwyd y gwasanaeth gan y Rheithor a llywyddwyd gan Mrs. D.G. Williams, Y Rheithordy. Y wraig wadd oedd Mrs. W.E. Griffiths, Fron Ganol, Llanrug a dangosodd beth o'i gwaith llaw. Y gwesteion oedd Mrs. Williams, Nant Forgan a Mrs. Roberts, Bryn Gro. Diolchwyd i'r siaradwr gan Mrs. H. Roberts ac i'r gwesteion gan Mrs. Higgins.

CROESO I'R CWM

Carem estyn croeso cynnes i Annie chwaer Miss Mary Owen Ashville. Yn awr gwraig weddw ydyw gyda dwy ferch ac mae hi'n gaeafu gyda'i chwaer yn y Cwm. Bu'n wael dro'n ôl a phleser yw ei gweld yn ymlwybro eto, yng ngofal ymroddgar ei chwaer. Er mai yn Abergele y bu'n cartrefu am flynyddoedd, fel Miss Annie Owen Pen Gwaith Clegir y cofia ei chyfeillion hi. Parhaed i wella, a threulio gaeaf hapus yn ein mysg.

CLWB IEUENCTID

Nos lau, Ionawr 20fed wedi bwlch o rai blynyddoedd daeth Mr. R. Parry, trefnydd ieuencid i agor yn swyddogol Glwb Ieuencid yn y pentref. Yr arweinydd yw Mr. Dafydd Price, Tan y Graig, ac mae Mrs. Avril Jones, Hafoty wedi ei hethol yn ysgrifennydd a Miss Susan Owen, Talgwynedd yn drysorydd. Bwriada'r Clwb gyfarfod bob nos lau, oed aelodaeth o 14eg i 25ain. Ymfalchiwn fod Clwb Ieuencid wedi ei sefydlu yma, er budd yr ifanc, a dymunwn bob hwyl a llwyddiant i'r arweinydd a'r aelodau.

PERSONOL

Dymuna Mrs. Rose Fowler, Bodlondeb ddiolch yn ddiffuant iawn am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati yn ystod ei gwaeledd diweddar. Gwerthfawroga bob ymweliad, rhoddion, llythyrau a chardiau a dderbyniodd.

O'R YSBYTY

Da gennym ddeall fod Mr. Tom Gawthorpe, Angorfa a Miss Eirian Williams Elidir View wedi cael dod gartref o'r ysbyty. Ein oofion atoch a'n dymuniadau gorau am lwyr wellhad.

CYDYMDEIMLAD

â Mr. Hugh Gwilym Jones, Bod Elan, sydd wedi colli amryw o berthnasau yn ddiweddar.

SIOPAU CWM-Y-GLO YN 1899

BU Mrs. Annie Catrin Williams, gwraig y diweddar Hen Bar, sydd yn awr yn byw gyda'i merch Enid yn Waterloo, Lerpwl — yn ôl yng Nghwm-y-Glo y flwyddyn diwethaf.

Wrth weld y lôn newydd, daeth llu o atgofion yn ôl iddi. Mae Mrs. Williams yn cofio cyn belled yn ôl â 1899, pan oedd 19 o siopau a 4 tŷ tafarn yn y pentref. Dyma restr o'r siopau yn 1899:

Cychwyn o'r Neuadd — rhes o dai oedd yno y pryd hynny yn dwyn yr enw Tan Marian Terrace ond i'r trigolion Rhes Carreg y Frân ydoedd. Ynghanol y rhes yr oedd:

Siop Kitty Morris — yn gwerthu pwdin reis a phestri; Blue Bell — Tŷ Tafarn; Siop Rhos Isa — Teiliwr; Siop Margiad Jos — gwerthu pennog picl; Siop Catrin Jos — siop pob dim; Siop Hannah Owen — siop pob dim; London House — siop ddillad John Griffith; Siop John Davies — groser — yma byddai'r pentrefwyr yn mynd i grasu bara yn y popty mawr; Seiont House — siop James Jos — neu Jim Cadi Refail, cerdded i Gaernarfon bob dydd Gwener hefo cert i nol nwyddau i werthu yn y siop. Coes bren ganddo; Dafarn Wylt — Tŷ Tafarn — Alexandra House heddiw; Siop y Post — Daniel ac Elin Jos; Siop Fawr — siop pob dim — D.M. Pritchard; Siop y Stesion — siop pob dim — R.O. Williams; Yn ol am gyfeiriad Llanrug:

Fricsan — Tŷ Tafarn — Ifan Williams; Craig-y-Don — Thomas Hughes — gweithdy saer; Siop Lestri — Craig-y-Don (cartref Miss Eluned Parry rwan); Glyn Dŵr — siop Mer Jos — gwerthu pennog a nionod picl; Siop Esgidiau — William Roberts; Siop Leusa a Lewis Tomos — siop da-da; William Roberts y Crudd — un o ddau dŷ yng ngowt yr ysgol a chwalwyd i wneud y cowt. Glan Bogelyn — John Williams y cigydd; Siop Catrin Jos — siop da-da; Newborough Arms — Tomos Williams.

O SENEDDAU'R FRO

"Rhaid cwtogi," "prinder arian", "sefyllfa 'sitiwesion' economaidd" — hwna ydio — dyna'r diwn gron a glywir yn adseinio drwy siamberydd seneddau'r fro ymhob rhan o'r wlad y dyddiau hyn.

Ia — dyddiau'r amcangyfrif — a phob swyddog llywodraeth leol o glerc y Cyngor Cymdeithas lleiaf i drysorydd y Cyngor Sir mwyaf yn crafu'i ben ac yn cnoi'i bensal. Gyda llaw Ebrill y laf yw diwrnod cyntaf y flwyddyn ariannol.

Mae lle i gydymdeimlo â swyddogion y seneddau cofiwch. Cafodd holl gynghorau'r wlad rybudd pendant i gwtogi ar wario cyhoeddus. Anodd gwneud hyn, wrth gwrs, a chostau nwyddau a chost gweinyddu yn mynd i fyny o wythnos i wythnos.

Ymhen y flwyddyn mae'n bur debyg y byddwn ninnau'n sylweddoli i'r apêl am gwtogi gael ei chario allan. Ydi'r hen foi bach yn cael llond ei fol o fwyd yn yr ysgol y dyddiau yma?

Ond cwtogi neu beidio, mae'n amlwg fod Cyngor Dinas Bangor wedi taro ar ffortiwn o rywle. Maent am ddyrchafu eu clerc rhan amser, a'i wneud yn swyddog llawn amser, a threblu ei gyflog. Sut yn y byd mawr y llwyddodd Dinas Bangor i lithro drwy'r gogor economaidd?

O ystyried y clamp o gyflog hwn. Ys gwn i faint o gydnabyddiaeth ddylid ei roi i glerc Cod Cynghorau Cymdeithas cefn gwlad? Yn sicr mae 'na lawer mwy o broblemau i'w datrys, a mwy o waith gweinyddol i'w wneud mewn plwyfi gwasgaredig cefn gwlad nag sydd yna mewn dinas neu dre. Mae 'na amryw o blwyfi gwledig sy'n cynnwys hanner dwsin neu fwy o bentrefi o fewn i'w ffiniau — a phob pentref hefo'i broblem golau cyhoeddus a phroblem flwybrau, a cheisiadau cynllunio etc. a'r holl broblemau hyn wedi eu gwasgaru dros gannoedd o erwau.

Dew, chwe mil o bunnau — ac ysgrifenyddes — braf ynte! Cwtogi — chwyddiant — ? Sgersli bilif! I gloi, rhaid llongyfarch y Cyngor Sir ar eu hymdrechion i gadw'r ffyrdd ar agor pan ddaeth yr eira mawr mor sydyn yn ystod y mis. Os parod ein beirniadaeth, byddwn yr un mor barod i roddi clod pan haeddir hynny. Ydach chi wedi talu'r dreth eto?

BETH AM GAIS I RYWUN YN YR YSBYTY YM MANGOR — Y C & A?

OS HOFFECH chi anfon cyfarchion a dewis record ar gyfer perthynas neu gyfaill sydd yn Ysbyty Mon ac Arfon, Bangor, fe allwch wneud hynny drwy yrru'r cwpon isod i Radio C. & A., Bangor — radio arbennig i'r ysbyty ar nos Sul a nos Fercher.

ENW'R CLAF

CYFEIRIAD

OED (TUA)

EICH ENW CHI

CYFEIRIAD

PA RECORD?

Gyrrwch i: Radio C. & A.,
Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor,

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB
MATH MEWN LLECHI A
GWENITHFAEN GAN
GREFFTWR Y LLEOL



Dyddiadur y Mis

DYDDIADUR CHWEFROR

Chwefror 1af, dydd Mawrth: Llanberis — Undeb y Mamau; Deiniolen — Clwb yr Henoed.

2ail, Mercher: Llanberis — Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30.

3ydd, Iau: Llanrug — Clwb y Mamau yn yr Ysgol Gynradd.

4ydd, Gwener: Dinorwig — Disgo yn y Ganolfan am 7.30 (mudiad Adfer); Llanberis — Adran Urdd (dros 11oed) yn cynnal Arwerthiant yn y Festri Gorffwysfa am 7.00; Clwb Eryri yn cyfarfod.

5ed, Sadwrn: Llanrug — Cyngorwyr Gwyn O. Jones a Gwyndaf Jones yn cynnal Cymorthfa o 10.30 a.m. — 12.0

7ed, Llun: Llanberis — Gyrfa Chwist dan nawdd St. John's yn y Ganolfan am 7.30; Clwb Methodig Eryri yn y Ganolfan am 2.00; Dosbarth Nos "Arlunio" yn Ysgol Dolbadarn am 7.0

Penisarwaun — Undeb y Mamau; Llanrug — Dosbarth Nos "Hanes Cymru" yn yr Ysgol Gynradd am 7.00

8ed, Mawrth: Cwm-y-Glo — Undeb y Mamau; Llanrug — Merched y Wawr — sgwrs gan Mrs. Locatt Berwyn am ofal clyw plant ysgolion Gwynedd.

9ed, Mercher: Llanberis — yn cyfarfod yn y Ganolfan am 7.30; Cwmni Drama Llanberis yn perfformio "Llaeth a Mâl yn Ysgol Dolbadarn;

9ed, Mercher: Llanberis — Clwb y Mamau yn cyfarfod yn y Ganolfan am 7.30; Cwmni Drama Llanberis yn perfformio "Llaeth a Mâl yn Ysgol Dolbadarn;

Bethel — Merched y Wawr yn yr ysgol.

10ed, Iau: Llanberis — Cangen Plaid Cymru — "Cwis Llyfrau Cymraeg" yn

y Ganolfan. am 7.30; Llanrug — Cyfarfod Blynnyddol Clwb Blodau'r Grug yn y Sefydliad Coffa am 2.00.

11eg, Gwener: Penisarwaun — Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30; Llanberis — Y Cwmni Drama yn perfformio "Llaeth a Mâl" yn Ysgol Dolbadarn; Clwb yr Henoed yn cyfarfod.

12ed, Sadwrn: Llanrug — Taith Gerdded Noddedig dan nawdd Clwb Snwcer.

14, Llun: Llanberis — Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pel droed yn y Ganolfan am 7.30; Clwb Methodig Eryri yn y Ganolfan am 2.00; Cymdeithas Lenyddol Capeli M.C. yn cyfarfod yn Festri Gorffwysfa am 7.15; Bethel — Clwb y Rhos yn yr ysgol.

15, Mawrth: Deiniolen — Clwb yr Henoed; Llanrug — Cymdeithas Undebol (Bryngwyn, Hermon, Pontrhytallt, Tanycoed).

16, Mercher: Llanberis — Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30; Cwm-y-Glo — Merched y Wawr yn yr ysgol; Deiniolen — Cyngor Eglwys — Cyfarfod Undebol yn Festri Cefn-y-Waun am 7.00.

17, Iau: Llanrug — Clwb y Mamau yn yr Ysgol Gynradd.

18 Gwener: Cyfarfod Blynnyddol Eco'r Wyddfa.

21ain, Llun: Deiniolen — Merched y Wawr yng nghwmni Eurig Wyn, Waunfawr; Llanberis — Clwb Methodig Eryri yn y Ganolfan am 2.00; Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30.; Dosbarth Nos "Arlunio" yn Ysgol Dolbadarn am 7.00; Llanrug — Dosbarth Nos "Hanes Cymru" yn yr Ysgol Gynradd am 7.00

23, Mercher: Llanberis — Clwb y Mamau yn y Ganolfan am 7.30.

24, Iau: Llanberis — Sefydliad y Merched yn dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni Rosalind Lloyd yn y Ganolfan am 7.00.

25, Gwener: Penisarwaun — Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30; Llanrug — Cwmni Drama Llanberis yn perfformio "Llaeth a Mâl" yn Ysgol Brynrefail — y noson dan nawdd Cangen Plaid Cymru Llanrug; Llanberis — Clwb yr Henoed.

25 — 27 Gwener, Sadwrn, Sul: Deiniolen a'r cylch — cangen Plaid Cymru yn mynd ar wibdaith i Lundain i Gyngerdd Gŵyl Ddewi yn yr Albert Hall.

28, Llun — Llanberis — Clwb Methodig Eryri yn y Ganolfan am 2.00; Gyrfa Chwist dan nawdd Clwb Peldroed yn y Ganolfan am 7.30; Cymdeithas Lenyddol Capeli M.C. Llanberis yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda swper yn yr "Erw Fair"; Dosbarth Nos "Arlunio" yn Ysgol Dolbadarn, am 7.00; Llanrug — Dosbarth Nos "Hanes Cymru" yn yr Ysgol Gynradd am 7.00.

DYDDIADAU I'W COFIO

Mawrth 12 — Cinio Gŵyl Ddewi Cangen Plaid Cymru Llanberis

Mawrth 17 ac 18 — Eisteddfod Capeli M.C. Llanberis a Nant Peris.

CLYBIAU IEUENCTID YR ARDAL

Brynrefail — Nos Lun yn wythnosol Cwm-y-Glo — Nos Iau yn wythnosol Bethel — Nos Iau yn wythnosol Llanrug — Nos Iau yn wythnosol Penisarwaun — Nos Iau yn wythnosol Nant Peris — Nos Wener yn wythnosol Llanberis — Nos Fawrth a nos Wener yn wythnosol

Anfoner y manylion i Miss Jane Morris Blodwel, Dôl-Elidir, Llanberis.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

- AR DRAWS:
1. Lobsgows!!! (5)
 5. Peth bach i'w blannu (5)
 8. Crynhoi at ei gilydd (5)
 9. Cryfhau (5)
 10. Mae hon yn iawn o chwith hefyd — me! (5)
 11. Bachgennaidd (5)
 12. Garddwr cyntefig iawn (3)
 13. Ochr (2)
 14. Merched (7)
 19. Anghyffredin (7)
 23. Felly y ... (2)
 24. Draw yno (3)
 26. Sâl iawn (5)
 27. Llawer (5)
 28. Brwydro (5)
 29. Symud y baw â dŵr a sebon (5)
 30. Gwrthodwr (5)
 31. Yn hwn mae nerth (5)

- I LAWR:
1. Cynlluniwr adeiladau (7)
 2. Gofidus iawn (8)
 3. Mae hwn yn cael digon o fwyd (6)
 4. Er ei fod yn araf, fe enillodd unwaith!!! (6)
 5. Ffon y swynwr (6)
 7. Sŵn aflafar (5)
 15. Meddai (3)
 16. Rhywbeth i lanhau'r clwy (3)

AR WERTH

TIR gyda chaniatad adeiladu ar werth ym Mhenisarwaun. Manylion oddi wrth Mr. R. Rowlands, Glanrafon, Penisarwaun.

BWRDD CEGIN gyda 2 leff a dror, Formica top melyn a choesau 'beech' a 4 cadair yn matsio. Llanberis 357.

COITS-GADAIR ddwbl (navy). Mewn cyflwr da. Mrs. E. Pitts, 53 Dol Elidir, Llanberis.

E& E.M.GREEN


SIOP GRON

PENISARWAUN

Nwyddau Groser
Ffrwythau a Llysiau Ffres

Dewis rhagorol
Croeso cartrefol

Croesair Rhif 10



17. Na ellir mesur ei ddyfnder (8)
18. Hawl ysgrifenedig (7)
20. Cymeryd lle (6)
21. Heb delerau (6)
22. Croes i sychu (6)
23. Adar swnllyd (5)
25. Copa (4)

ATEBION-I CROESAIR ARBENNIG

AR DRAWS: 1. Bethlehem; 7. Bugail; 8. Aur; 9. Asyn; 10. CU; 11. Ne; 12. Angel; 13. Er; 14. Ni; 15. Doli; 17. Si; 18. Myrr; 19. Na; 21. Crud; 23. Tawel; 26. Drudwen; 29. Noel; 30. Lliw; 31. Dwyrain.

I LAWR: 1. Baban; 2. Thus; 3. Elusen; 4. Mair; 5. Du; 6. Brenin; 10. Crist; 11. Nos; 13. Eli; 15. Drud; 16. Cawell; 20. Geni; 21. Canu; 22. Duw; 24. Awn; 25. Câl; 27. Dôr; 28. Cwm.

Cyfrir y llythrennau canlynol fel un llythrennau:
CH; DD; FF; NG; LI; PH; Rh; Th.

Anfoner y cynigion i:
Myrddin Owen, 32 Stryd Fawr, Llanberis.
Gwobr o £1 i'r ateb cywir cyntaf a dynnir ar ôl i'r holl atebion ddod i law.
Enillydd y croesair arbennig: Ann Owen, 1 Llys y Gwynt, Penisarwaun.

Enw.....

Cyfeiriad.....

.....

BETHEL

CYDYMDEIMLAD

Mae'n cydymdeimlad llwyrâf â theulu Arwel, Y Grug yn eu profedigaeth. Ddydd Sadwrn Ionawr 8ed ar ôl gwaeldd hir bu farw Mr. Wyn Griffith Jones, mab Mr. a Mrs. Ivor Jones, Awel y Grug, Cremllyn. 'Roedd yn byw yn 1 Nant y Waun, Conwy. Mae'n cydymdeimlad â'i wraig Rene ei fam a'i dad a'r teulu i gyd.

YR URDD

Nos Wener, Ionawr 14eg cafwyd sioe o ffilmiau gan Ffilmiau'r Nant yn y Neuadd. Cafwyd cynulliad da o blant i weld y cartwnau ac 'roedd pawb wedi eu mwynhau. Er mai ychydig iawn o oedolion a ddaeth i'r ail sioe 'roedd pawb yn brolio'r ffilmiau ac wedi eu mwynhau.

CLWB IEUENCTID

Nos Iau, Ionawr 20fed ail-ddechreuwyd cynnal Clwb Ieuenctid yn y Neuadd am 7 o'r gloch. Yr arweinydd newydd yw Moelwen Gwyndaf. Gobeithio y bydd y Clwb yn llewyrchus dan yr oruchwyliaeth newydd.

YMCA

Gan fod y Clwb Ieuenctid yn cyfarfod bob nos Iau ni fydd ystafell y YMCA yn agored i'r aelodau ar nos Iau am weddill y Gaeaf. Fe fydd tîm snwcer y YM yn ymarfer ar nos Iau o hyn ymlaen.

CLWB Y RHOS

Nos Wener, Ionawr 21ain mwynhaodd aelodau'r Clwb a'u gwragedd eu cinio Nadolig yng Ngwesty'r Dolbadarn, Llanberis. Ar ôl y cinio cafwyd adloniant wedi ei drefnu gan rai o aelodau'r clwb.

MERCHED Y WAWR

Nos Fercher y 12fed o Ionawr

cafwyd noson lwyddiannus iawn yng nghwmni Mrs. Olga Richards, athrawes ymarfer corff yn ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon. Dangosodd Mrs. Richards i'r aelodau sut i gadw'n ystwyth ac ymunodd pawb i ymarfer y symudiadau. Rhoddwyd y te gan Mrs. Shirley Evans a Mrs. Enid Roberts. Rhoddwyd y raffl gan Mrs. Enid Roberts ac fe'i enillwyd gan Miss M. Owen. Cydymdeimlwyd â Mrs. Jones Arwel y Grug a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli ei mab yn Llandudno. Croesawyd aelodau newydd yn y cyfarfod. Mae'r gangen yn ymfalchio bod rhif yr aelodaeth yn uwch eleni na'r llynedd, a bob brwdfrydedd yr aelodau yn argoeli'n dda iawn am flwyddyn lewyrchus iawn.

LLONGYFARCHIADAU

i Nest Jones, Tŷ'r Ysgol ar ei phenblwydd yn ddeunaw oed ddydd Sadwrn Ionawr 22ain.

CYDYMDEIMLAD

'Rydym yn cydymdeimlo â Mr. Hughes, Tegfan yn ei brofedigaeth Bydd colled fawr ar ôl Mrs. Hughes yn y pentref, ac yn enwedig yn yr Eglwys lle 'roedd yn weithgar iawn.


PLAID CYMRU

Nos Fercher Ionawr 19 bu'r Cynghorydd Dafydd Orwig yn sgwrsio ag aelodau cangen Bethel a changen Y Felinheli ar drefniadaeth etholiad. Diolchwyd gan y cadeirydd, Bill Evans ac Owain Bebb. Yn y pwyllgor a gynhaliwyd yr un noson penderfynwyd trefnu Gyrfa Chwist yn y Neuadd i'w chynnal nos Fercher, Chwefror 16. Yn ystod y mis nesaf bydd aelodau'r pwyllgor yn mynd o gwmpas y pentref i gasglu tâl aelodaeth.

Blynyddoedd Rhewllyd

DO FE rewodd llyn Padarn rhwng y blynyddoedd a nodwyd yn y rhifyn diwethaf. Diolch i'r llu a yrrodd i'n hatgoffa. Meddwl 'roeddann ni ei bod yn ffaith ddi-ddorol fod cyfnod o ddeng

mlynedd ar hugain rhwng y ddau lun a rhyw amau y byddai yn rhewi eto y flwyddyn yma, — sef deng mlynedd ar hugain er pan dynnwyd yr ail lun yn y flwyddyn 1947.



O DDYDDIADUR WILLIAM MORRIS, BRON FUCHES, DINORWIG :

1855:

Chwefror 20: Rhew-wynt. Dau llyn Llanberis wedi rhewi trostynt fel y gellir eu cerdded yn ddiogel ar y rhew.

Chwefror 21: Rhewi yn galed ers pum wythnos i heddiw.

1879: Eira a rhew trwy fis Ionawr.

Ionawr 29: Llynau Llanberis wedi rhewi trostynt, ugeiniau yn ymlithro ar Lyn Peris i ymbleseru.

Diolch i sawl un ohonoch am yrru y llun uchod i'r golygydd.

E.W.&M.WILLIAMS



Y BECWS DEINIOLEN

FFÔN : LLANBERIS 232

BARA FFRES — TEISENNAU BLASUS!

(Rydym yn arbenigo mewn teisennau Priodas)

DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER
YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN,
PENISARWAUN, LLANRUG a BETHEL

L'HARASSOIRE

JOURNAL DU PAYS DE DOL ET AUTRES

3^{ème} TRIMESTRE 1976

N. 6 Prix: 3,00F.



Beth yw "L'Harassoire" a pham sôn amdano yn yr Eco? Padell ffrio dylllog ddefnyddir gan Lydawiad i rostio cnau'r gastenwydden bêr ar dân coed yn nhrymder gaeaf. Enw ar Bapur Bro sydd wedi ymddangos ers rhyw flwyddyn a hanner yn ardal Dol yn Nwyrain Llydaw.

Daw'r papur allan bedair gwaith y flwyddyn. Ffrangeg yw'r iaith — mae Dwyrain Llydaw fel Maesyfed yng Nghymru wedi hen golli'r iaith frodorol. Yn y drydedd ganrif ar ddeg Llydaweg oedd yr iaith ond erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg nid oedd tafod a'i siaradai.

Cynnwys y papur newyddion lleol ac erthyglau protest yn erbyn anghyfiawnderau'r awdurdodau gan ymdrechu i roi gwybodaeth i werin gwlad am eu hawliau.

Ond yn y ddau rifyn diwethaf gwelir ymdrech pobl ifanc i ymgynabod â'u gwreiddiau Llydewig drwy erthyglau yn trafod enwau lleoedd, — enwau lleoedd fyddai mor gartrefol yng Nghymru ag y maent yn Llydaw. Wedi'r cwbl y Cymro Samson Sant a sefydlodd yr eglwys wnaeth Dol mor enwog yn hen hanes Llydaw.

Dafydd Ellis Jones Prifathro Ysgol Penybryn, Bethesda

10% oddi ar Bapur Wal a Phaent Leyland & Jellipex yn

E.WILSON HUGHES

84 Stryd Fawr
LLANBERIS

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

NANT PERIS

LLONGYFARCHIADAU:

calonnog iawn i Miss Hefina Pritchard, Bronallt, merch ieu-engaf Mr. a Mrs. Tom G. Pritchard ar ei dywedd iad a Mr. Keith Roberts mab Mrs. E. Roberts a'r diwedd ar Mr. H.J. Roberts, Belle Haven, Llanrug. Ein dymuniadau gorau i chwi eich dau ar yr amgylchiad hapus yma.

CROESO ADREF:

i Gareth Wyn a Llinos o'r ysbyty. Bu raid i'r ddau dreulio ychydig ddyddiau yn Ysbyty Dewi Sant ym Mangor ond da eu gweld yn ol ac wedi gwella.

CROESO:

i'r Nant i Mr. a Mrs. E. Evans a Sharon. Daeth y teulu i fyw i 6 Bro Glyder, a phleser mawr yw cael croesawu'r teulu i'r Nant yn hytrach na ffarwelio. Gobeithio y bydd iddynt setlo i lawr yn ein plith ac y cawn lawer o'u cwmni a'u gwasanaeth.

LLONGYFARCHIADAU:

I Dei Thomas, Bron Wyddfa am ei raglen Disgo yn ystod mis Ionawr. Mae Dei yn un o blant y Nant ac yr ydym yn falch ohono, ac am ei waith clodwiw gyda'r Urdd.

COFIWCH WRANDO:

ar y Rhaglen "Gwin y Gorffennol" ar y Radio ar Chwefror 9. Fel rheol cofnodi pethau a ddigwyddodd yn ystod y mis y byddwn yn yr *Eco* ond dyma ni yn rhoi rhyw ragfla bach o'r rhaglen. Sgwrs ydyw gan ein cyfaill Perisfab yn son am waith ei daid yn cyfansoddi geiriau y ganig adnabyddus 'Y Bwthyn ar y Bryn'. Fel y gwyddoch tri phennill sydd yn y ganig ond ymhen blyneddodd dychwelodd y bardd i'w hen gartref a'i gael yn wag, mynegodd ei deimladau yn y pennill yma sydd yn ymddangos mewn print am y tro cyntaf erioed yn y rhifyn yma o *Eco* r Wyddfa:

Ond fy mam sydd wedi marw
Mae yn huno ym medd fy nhad
Obry ym mynwent ddu Macbela
Hunwch! Hunwch reaint mad,
Cyngor bach ni chaf fi eto
Cerydd chwaith mae'm dagrau'n

llyn

Nid oes heddiw neb i'm derbyn
Yn y Bwthyn ar y Bryn.

DECHRAU BLWYDDYN:

Yn ol ein harfer cynhaliwyd Cyfarfodydd Gweddi ddechrau'r flwyddyn yn Rheoboth. Y Brodyr oedd yn gwasanaethu nos Lun a'r Chwirydd nos Fawrth. Nos Fercher cafwyd pregeth amserol a grymus gan y Parch. Meirion Ll. Davies, MA, Pwllheli. Cafwyd cynulliaidau da yn y tri chyfarfod sydd yn dangos fod y 'pethe' yn dal eu gafael yn y Nant.

PEL DROED

Amherthun yw gweled nifer o'r bechgyn o dan arweiniad Mr. Ken Jones yn ffurfio tim pel droed. Maent wedi bod wrthi'n ddygn yn casglu arian at gael dillad ac offer ac maent yn bur falch o'u crysau lliw gwin a gwyn. Diolch i

Mr. Meirion Pritchard, Ty Isaf am adael iddynt chwarae ar un o'i gaeau. Prin yw'r arian yn y god, ac os oes rhywun yn teimlo fel rhoi ychydig gefnogaeth ariannol iddynt bydd Ken a'r hogia yn ddiolchgar iawn. Dengys hyn hefyd yr angen dybryd am faes chwarae i blant y pentref. Deallwn fod trafodaethau yn mynd ymlaen i sicrhau hynny. Pob diolch a llwyddiant i'r cyfeillion sydd yn gweithio i wireddu hyn.

LLONGYFARCHION

Bellach yr ydym yn ystyried Mr. Gerallt Lloyd Owen fel un ohonom, gan ei fod yn treulio y rhan fwyaf o'i amser yn y Nant yng Ngwasg Gwynedd. Dymunwn ei longyfarch ef a'i briod ar gael mab — Bedwyr Llwyd Owen — ar y 14eg o Ionawr, brawd i Mirain. Pob bendith i chwi fel teulu yn y dyfodol.

CYDYMDEIMLAD

Gyda gofid y clywsom yn y Nant am farwolaeth Mr. Thomas Evans Gardda Fawr yng nghartref ei ferch a'i fab yng nghyfraith ym Mangor ar yr ugeinfed cyfisol. Nid oes ond un hyn nag ef yn aros yn y Nant, yr oedd ar drothwy ei 86 oed. Treuliodd ei oes faith yma ac efallai yn ein rhifyn nesaf y cawn atgofion rhai o'i gyfoedion amdano. Derbyniad y teulu i gyd ein cydymdeimlad dwysaf a hwy yn eu profedigaeth chwerw.

CYDYMDEIMLAD

Yn sydyn nos Sadwrn yn Ysbyty Mon ac Arfon bu farw Elias Griffith, Awelon, Nant y Ffynnon yn 73 mlwydd oed. Derbyniad ei weddw, ei ddwy ferch a'i fab, yr wyr a'r wyres a'r teulu oll ein cydymdeimlad llwyraf.

CEUNANT

PREGETH

Cynhaliwyd gwasanaeth yn y capel nos lau Ionawr 6ed gan Mr. W.O. Roberts y gweinidog.

YNG NGHARTRE'R HENOED

Mae Miss Johnson, High Moor wedi symud i gartref ym Mae Treaddur. Daeth hi a'i theulu i fyw i Ceunant tua pym mlynedd ar hugain yn ol. Gwnaeth yr ymdrech a llwyddodd i ddysgu Cymraeg. Mae ei bungalo yn awr ar werth. Dymunwn pob hapusrwydd iddi yn ei chartref newydd.

PRIODAS

Llongyfarchiadau i Philip Smith, Pant Ifan ar ei briodas gyda Miss Carol Ann Smith o Gaernarfon. Byddant yn cartrefu yng Nglanffynnon, Llanrug.

YR WYDDFA

Brenhines a'i bwtresi - yn cydio
Fel cadwyn amdani,
Arwrol fam Eryri,
Y niwl yw ei choron hi.

TONY ELLIOTT.

DETS

(Y Diwedd ar Mrs. Katie Jones, Glasfryn, Llanberis)



"Dets" yn perfformio hyd yn oed pan oedd yn hogan fach (1917-18) ac ar y llwyfan y bu ar hyd ei hoës. Y rhai sydd yn y llun o'r chwith i'r dde yw: Irfon; Norman Tŷ'r Ysgol; Katie (Dets); Meic (ei chefnlder); Betty, Jonah Gwilym; Ann Williams a Jonah W.

Y llun trwy garedigrwydd Mrs. B. Rees Evans, 5 Rhes Minafon Llanberis.

BU'N "Madame Katie Jones" yn nyddiau ei bri fel cantores, "Katie" oedd i'r pentra', a "Dets" i'w chymdogion agosaf yn stryd Newton yr hen amser.

George a'i galwai'n "Dets" o'i ddwyflwydd oed ymlaen a ninnau'n ei ddilyn. George a Dets wedi marw'n rhy gynnar er iddi hi gyrraedd oed yr addewid. Anhygoel meddwl fod y tafod ffraeth yn fud, y llais cyfoethog wedi peidio a chanu. Canu o ddyddiau plentyndod, canu a thrin y piano ym mharlwr llawn Gwenallt o flaen 'Steddfoed, yn ffyddlon am flynyddoedd i gor y diwedd ar hoffus William James, trafod yn llawen unawdau cymhleth yr Oratorios yng nghor mawr Aled, canu ym mhartion bach Preswylfa, ac Alto pob cor a pharti'n gwbl saff lle'r oedd hi yno i'w gynnal.

'Roedd camp ar ei chanu. Ond 'roedd iddi gamp arall, gydradd, — camp ei digrifwch. Digrifwch mor slic, slei diymdrech a dawn y digrifwyr mawr. Gallai greu digrifwch o ddim byd, o ddeud y pethau mwyaf cyffredin mewn llais fflat, diliw, gyrru pawb yn llech o chwerthin, a'i hwyneb yn sobor fel sant. Arwel yn gwbyn yng ngardd gefn Anti Mem yn siapio'i griw wrth "gynhyrchu" ei ddramas, a llais dyfn fel o waelod 'sgidia' yn dwad o ben yr entri: "A—r—rwell! wyt ti'n dwad i nol dy de?", a phob cytsain yn clecian. "O! 'rhen hogyn Arwel 'ma," digrifwch yn pefrio yn y llygaid tywyll, ond y llais yn ddagreul a'r wyneb yn sad, sidet. O waelodion mwy bygythiol wedyn: "Arwel, wyt ti wedi dysgu d'adnod?"

Tair brawddeg gyffredin a naws dawn Tony Hancock eu llond.

Fe'i ganed yn rhy gynnar. Wedi siawns i ddisgyblu ei doniau buasai'n rhodd ddelfrydd i Radio a Theledu. Canu a Noson Lawen, sbloet a "Phetha'r" pentra' oedd o gwmpas Dets. Bwrlwm o fynd a gneud, a Dic yng nghanol pob prysurdeb; a fffisig ei doniolwch a chymwynas ei gofal wrth law pan aeth i wendid. "Katie a Dic", dau enw mor naturiol hefo'i gilydd a Deian a Loli.

"Colled ar ei hol" — wrth gwrs, i deulu, i gapel, i gylch. Ond ei frath yn fwyaf miniog i Dic ac Arwel, sy'n gorfod, yn ol hen batrwm digyfnawid, dygymod a byw hebddi. Gwir y llenwir pob bwlch a chau pob adwy wedi marw'r enwog a'r anenwog. Ond mae'r un mor wir bod marw Dets wedi dwyn darn mawr arall o gymdeithas gynnes a gread ei diddanwch ei hun o frethyn cartre' heb gynorthwy na theledu na thalent estron, — cymdeithas yr hen Lanber, yr oedd hi yn un o'i gynheiliaid ffyddlonaf.

Mat

AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO

Eric Morris



Arvonian Coaches
LLANRUG

FFON WAUNFAWR 254

BRYN REFAIL

DATHLU'R NADOLIG

Brynhawn Mawrth, Rhagfyr 21ain mwynhaodd plant y pentref eu te parti Nadolig a oedd wedi ei drefnu gan y mamau. Yr oedd y Festri wedi ei haddurno'n addas ynghyd â choeden Nadolig hardd a dderbyniwyd fel arfer trwy haelioni Mr. W.H. Griffith, Llys. Talwyd ymweliad gan Siôn Corn ac wedi ei gyfarch ar gân, dosbarthodd anrhegion i'r plant i gyd. Yn ystod y prynhawn canwyd nifer o garolau a chaneuon Nadolig a chafwyd llawer o hwyl a sbri gyda chwaraeon amrywiol. Am saith o'r gloch yn y Capel, cynhaliwyd y Gwasanaeth Carolau Blynnyddol dan nawdd yr Ysgol Sul a'r Gobeithlu. Agorwyd drwy weddi gan y Parch. S.O. Hughes ac 'roedd y darlenniadau o'r ysgrythur yng ngofal Mrs. Gwyneth Evans, Mrs. Jennie Roberts, Mrs. Shirley Roberts, Miss A.M. Williams, Mri. R.W. Evans, Elfed Roberts, Islwyn Williams, Bertie Roberts a Gwilym W. Williams. Canwyd pump o garolau gan barti o blant wedi eu hyfforddi gan Mrs. L.P. Williams ac ymunodd y gynulleidfa yn y gweddill o'r Mawl. I gloi'r noson perfformiwyd chwaraegerdd Nadolig "Gŵyl y Geni" gyda phlant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan dan ofal Mrs. Shirley Roberts a Mrs. L.P. Williams. Nos Fercher Rhagfyr 22ain bu nifer o garedigion a phlant y Gobeithlu o gwmpas y pentref yn canu carolau. Casglwyd y swm o £13.02.

YN GWELLA

'Rydym yn falch o ddeall fod Miss Mair Evans, Ty'n Buarth wedi gwella yn dda ar ôl triniaeth yn Ysbyty Môn ac Arfon Bangor. Dymuna Mair ddiolch i berthnasau a chyfeillion am bob arwydd o garedigrwydd tra bu yn yr ysbyty ac wedi dychwelyd gartref. Dymunwn wellhad llwyr a buan hefyd i Mrs. Pat Jones, Cae Coch sydd gartref erbyn hyn o'r ysbyty. Gobeithiwn ei gweld cyn bo hir yn ôl wrth ei gwaith yn Ysgol y Babanod.

LLONGYFARCHION

i Mr. Myfyr Evans Jones, 15 Belmont Avenue, Bangor (mab y diweddar Mr. Goronwy a Mrs. Eifiona Jones, Bron Eryri) ar ei ddyrchafu i swydd "Second Man" ym Manc Barclays yn y Bala. Mae Myfyr eisoes wedi dechrau ar ei ddyletswyddau newydd, ac eiddunwn pob llwyddiant iddo ef a'i deulu pan symudant i fyw i'r Bala maes o law.

CROESO

Llawenydd yw gweld Mrs. Jennie Hall wedi dychwelyd o Blas-y-Coed, Bangor i'w chynefin i'r Cytir, sydd erbyn hyn yn adeilad tipyn gwahanol i beth oedd amser yn ôl, wedi ei adnewyddu yn hyfryd dros ben. Boed i Mrs. Hall, sydd newydd ddathlu ei phenblwydd yn 86 oed fwyngau llawer blwyddyn eto yn ein plith. Croeso hefyd i'r ieuengaf un yn y pentref atom sef Paul Anthony, baban a anwyd i Mr. a Mrs. A. Jones, 5 Tremeilian,

ddechrau fis Rhagfyr a brawd derbyniol iawn gan Janet a Christine.

Y GYMDEITHAS

Mae'r gymdeithas yn parhau i fynd yn ei blaen yn dra llwyddiannus a threuliwyd noson ddifyr ac addysgiadol iawn yng nghwmni'r Dr. Eirwen Gwynn nos lau, Ionawr 6ed. "Troi at y Tir" oedd testun ei darlith. Trwy gymorth darluniau, adroddodd ei hanes hi a'i theulu yn gadael Llundain chwarter canrif yn ôl a'r dyhead brwd oedd yn eu calonnau am ddychwelyd i Gymru. Troi at y tir i Efonydd fu'r canlyniad a chartrefu yn Nhyddyn Cwcallt, Rhoslan. Yr oedd yn werth bod yn bresennol i glywed trafod maes mor ddiddorol a phwysig â hynny mewn dull mor hamddenol a chartrefol.

CYFARFODYDD GWEDDI

Parhawyd y traddodiad o gynnal cyfarfodydd gweddiâu ddechrau blwyddyn gyda dau gyfarfyddiad. Cymerwyd rhan nos Lun Ionawr 10fed gan Mri. G.W. Williams, R.W. Evans a Miss A.M. Williams. Diweddwyd gan Mrs. Gwyneth Evans. Nos Fawrth 'roedd y cyfarfod dan ofal y Parch. S.O. Hughes, Mri. Islwyn Williams a Bertie Roberts. Llywyddwyd y ddau gyfarfod gan Mr. Elfed Roberts a'r organyddes oedd Mrs. L.P. Williams.


CLWB IEUENCTID

Agorir y Clwb yn y pentre nos Lun Ionawr 31. Cynhelir y clwb yn Festri'r Capel. Mae clwb ieuenctid ym mhob pentref yn y dalgylch erbyn hyn.

NOFEL LEOL NEWYDD

NEWYDD ei chyhoeddi — nofel gyffrous ddiweddaraf John E. Williams, "Gwynt i Oen" — wedi ei lleoli yng Nghaernarfon a Dyffryn Llanberis. Mae wedi ei hysgrifennu hefyd ar lafar gwlad y Dyffryn.

Cyhoeddir "Gwynt i Oen" gan Wasg Gwynedd ac mae eisoes yn y siopau. Ei phris 75c.



Y Parch. G. John Owen

NADOLIG Y PENTREF

PARCH. G. JOHN OWEN
PENISARWAUN

GANED y Parch. G. John Owen yn "Nhŷ Newydd", Penisarwaun yn fab hynaf i Mr. a Mrs. Griffith Owen. Yr oedd ei dad o Sir Fôn — Guto Trefarthin, fel y gelwid ef yn y chwarel. Yr oedd ei fam yn un o deulu'r 'Glasgoed'. Pan yn faban dywedodd ei dad am Griffith "Gweinidog Wesle fydd hwn", ond ni bu sôn am y peth wedyn gan fod deuddeg o blant yn y cartref.

Symudodd y teulu i fyw i'r Waen a chafodd y plant amser hapus iawn yn chwarae yng "Nghors yr Hendre" ac wrth lan Ffynnon Cegin Arthur.

Ym 1904 daeth Griffith o dan ddylanwad y Diwygiad a daeth yn un o'r pregethwyr mwyaf trwy Gymru. Ef oedd un o'r rhai cyntaf i ddarlledu gwasanaeth ar y radio a chafodd deigram gan Lloyd George fore Llun yn ei longyfarch.

Yr oedd yn ysgrifennu colofn Gymraeg i'r *Town Talk*, papur Bae Colwyn. Bu farw ym 1935 yn hanner cant oed ac yntau yn weinidog ym Mae Colwyn.

Mae ganddo dri o blant a phedair chwaer a llawer o deulu'r 'Glasgoed' yn dal i fyw ym Mhenisarwaun.

Dyma ei ysgrif ar y Nadolig tua'r flwyddyn 1895.

NADOLIG YN Y PENTREF

Pan oeddwn yn fachgen byddwn yn arfer ag edrych ymlaen am hen Wyl y Nadolig am wythnosau. Dyma Wyl y gwyliau i blant y pentref ac i'r pentrefwyr oll. Noson ddiddorol iawn ydoedd y nos cyn y Nadolig. Dyma'r noson y byddis yn gwneuthur 'cyflath'. Ymgasglai teuluoedd, yn rieni a phlant ar yr amgylchiad diddorol hwn. Byddai'r cariadon hefyd yn cyfarfod i wneuthur 'cyflath', a byddai y lleill oedd yn ddi-gariad yn ceisio drysu eu hwyl.

Clywais fod cwpl wedi trefnu i wneuthur 'cyflath' mewn cegin allan a berthynai i un o'r tyddynwyr. Clywodd llanciau direidus y fro am y trefniant, a ffwrd â hwy tuag yno. Y peth cyntaf a wnaethant ydoedd dal y ceiliog, a'i ollwng drwy gorn y simddai pan oedd y crochan ar y tân. Daeth y gwalch hwnnw i lawr gan gario gydag ef fwg a huddugl y simddai, er mawr ddychryn i'r cariadau druain.

Profedigaeth wahanol a gafodd fy ewyrth wrth wneuthur 'cyflath'. Penderfynnodd ei wneuthur yn weddol gynnar yn yr hwyr. Cefais i a'm chwaer ein gwahodd yno gan y plant. F'ewyrth oedd yn gofalu am droi'r cyflath yn y crochan. Hen simddai fawr oedd yn ei dŷ ef, a honno bob amser yn dywyll. Defnyddiai gannwyll er mwyn gweld yn iawn gyflwr cynnwys y crochan. Drwy rhyw anffawd syrthiodd y llwy i'r crochan berwedig, ac yn ei wyllt-ineb gollyngodd f'ewyrth y gannwyll i gadw cwmni iddi, ac i wneud pethau yn waeth ceisiodd achub y gannwyll, a rhoddodd ei law yn y berw poeth. Yn ei wyllt-ineb cydiodd yng nghlust y crochan a thaflodd ef a'i gynnwys i ganol y cae.

Rhuthrodd y plant i gyd, ond buan y gwelsom nad oedd gŵer cannyll yn gwella dim ar gyflath. Ni tu yno sôn am gyflath y Nadolig hwnnw, a dibynnai'r plant ar drugaredd rhai mwy

ffodus y flwyddyn honno. Ar ôl y seremoni 'gwneuthur cyflath a'i brofi' âi'r plant i'w gwelyau i ddisgwyl y tad Nadolig. Y mae gennyf gof plentyn am ei ymweliadau. Byddwn yn cael rhyw ychydig gnau, afal, ac 'orange'. Y mae plant heddiw dipyn yn well allan, nag oeddwn i pan yn blentyn. Cofiaf fel y byddwn yn deffro'r bore ac yn rhuthro am fy hosan a balch oeddwn o weld ei chynnwys. Yr oedd ei chynnwys yn amheuthun i blentyn chwarelwr yr adeg honno. Treulio'r bore i edrych ymlaen am y cinio.

Syml ydoedd y cinio, er hynny mae gennyf atgofion hapus iawn amdano. Rhyw deimlad o ddigon-oldeb iach ar ôl profi'r danteithion na ddeuen ar y bwrdd ond yn flynyddol. Byddai rhai o'r pentrefwyr yn ddigon ffodus er hynny i gael hwyaden neu geiliog canys byddai rhai ohonynt yn magu yr adar hynny. Byddai ewyrth brawd i mam yn arfer ac aberthu ceiliog ar yr Wyl. Cofiaf fy mod unwaith pan yn bur fychan yn ei gynorthwyo i ddiennyddio hen geiliog "Plymouth Rock" mawr. I mi y rhoddod y gwaith o ddal yr aderyn er mwyn i f'ewyrth gael torri ei ben. Yr oedd popeth yn barod, y blocyn pren a'r gyllell fawr i lawr gan wahannu'r pen oddi wrth y ceiliog yn dwt ar y blocyn. Yna daeth y gyllell fawr i lawr gan wahannu'r pen oddi wrth y corff mewn eiliad. Gollyngais innau'r ceiliog ac er fy syndod a'm dychryn dechreuodd ei gwadnu hi am y drws gan redeg yn wyllt heb yr un pen. Edrychais i ar f'ewyrth ac yntau arnaf innau, yr oeddym ein dau wedi dychryn bron cymaint a'r ceiliog y torrwyd ei ben. Cawsom ef yn farw ychydig lathenni o'r man y deinyddiwyd ef. Treuliais bellach lawer Nadolig yng ngwahanol drefi. Gogledd Cymru ond ni threuliais ddifyrrach un nag a dreuliwyd yn fachgen yn y pentref dan gysgod yr Wyddfa a'r Elidir yn Sir Gaernarfon.

LLANBERIS

DIOLCH

Dymuna Mr. a Mrs. Robert Hughes, 7 Stryd Siarlot ddiolch yn gynnes iawn i'w teulu a'u cyfeillion oll am y llu o gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Ruddem Ionawr 1af.

Dymuna Mr. Richard Jones, Glasfryn a'r teulu ddiolch yn ddi-fuant iawn i berthnasau, cyfeillion a chymdogion am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth.

CLWB METHEDIG ERYRI

Cynhaliodd Aelodau y Clwb uchod eu cinio Nadolig yng Ngwesty Llyn Padarn Llanberis Rhagfyr 20ed. Roedd chwech o'r aelodau yn bresennol, un teulu wedi cael profedigaeth a phedwar o rai eraill ddim yn teimlo yn ddigon da i ddod i'r cinio. Cofiwn atynt oll. Nid oedd Mr. Oswyn Rees, Arolygydd Rhanbarth Arfon o'r Gwasanaeth Gymdeithasol, yn bresennol oherwydd galwad arall ac fe ymddiheurwyd ar ei ran gan Miss Marion Hughes. 'Roedd yr adloniant yng ngofal y Gwasanaethyddion Cymdeithasol. Y prif gystadleuaeth oedd "Siôn a Siân" dan ofalaeth Miss Marion Hughes a Mrs. Myra Thomas. Cystadlwyd oedd: Mr. a Mrs. E.R. Williams, 11 Rallt Goch, Mr. a Mrs. G. Owen, Maes Padarn, Mr. a Mrs. W.R. Jones, Gyrrwr y Bws Methedig a'i wraig. Cafwyd hwyli iawn. Mr. W. Huxley Thomas, Bryn Myfyr, Stryd Newton oedd y cyfeilydd a rhoddodd ddetholiad o'i waith ei hun ar y piano.

Cyfeiliodd hefyd i Mr. George Morris, 18 Glan Moelyn, Llanrug. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cael rhodd o arian gan gyfailli i'r Clwb a oedd yn dymuno aros yn ddi-enw. Rhoddion y raffl oedd Sheri: Mr. E.I. Thomas, Cadeirydd; Tin Bisgedi: Matron A.M. Jones, Llywydd; Boc Sioclet: Aelod o'r Pwyllgor, Mrs. Helen Morris. Yr enillwyr oedd: Mrs. M.E. Jones, Rhes Victoria; Mrs. K. Williams, Derwen Deg a Mrs. Megan Pritchard, Snowdon View, Llanrug. I gloi cafwyd araith gan y Llywydd Matron A.M. Jones, SRN (Ret) Ardwyn, Ffordd Capel Coch ac yn ei haraith fe gyfeiriodd at y gofal a charedigrwydd a chymorth oedd angen ar y methodig ac hefyd gair o glod i Mr. W.R. Jones, gyrrwr y bws, am ei ofal parhaol am y methodig.

CYDNABOD

Dymunaf ddiolch yn gynnes iawn i bawb a fu mor garedig wrthyf mewn gair a gweithred yn ystod fy arhosiad yn Ysbyty Bryn Hyfryd. Bu pob gair caredig yn gymorth ac yn galonddid arbennig i mi.

A.Owen,

Bron y Graig.

YR WYTHNOS WEDDIAU

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Gweddi fel arfer yn ystod yr wythnos gyntaf o'r flwyddyn yn y gwahanol eglwysi. O dan nawdd y Cyngor Eglwysi, cafwyd cyfarfod gweddi o dan ofal gweinidogion y cylch ar nos Fawrth. Ar nos

Fercher cafwyd cyfarfod gweddi o dan ofal y gwragedd ieuaic yng Ngorffwysfa i ofalaeth Capel Coch, Preswylfa a Gorffwysfa. Caed pregeth ar nos lau yn Eglwys Jerusalem (A) gan y Parch. Trefor Jones, Caernarfon.

BRYSIWCH WELLA

Dymunwn adferiad buan i bawb o'r pentref sydd wedi bod yn wael yn ystod y mis diwethaf.

CINIO YN Y CABAN

Ddydd Llun cyn y Nadolig cafwyd cinio Nadolig ardderchog yng Nghaban Aberdaron sydd uwchben Llyn Llanberis. Darparwyd y cinio'n ardderchog gan Alwen, Phillis, Joan ac Anti Mary. Wyth yn unig oedd yn y cwmni difyr. Dywedwyd y Gras Bwyd gan Hugh Bara. Canwyd carolau gan Harry, Bob, Allan a Hugh Tate. Cafwyd y cinio wrth olau tair kannwyll a oedd ar y bwrdd a thynnwyd cracars. Roedd y canu'n fendigedig.

UNDEB YNG NGHRIST

Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o dan nawdd Cyngor Eglwysi Llanberis i weddio am Undeb yng Nghrist yng Nghapel Coch nos Fawrth, 18 Ionawr. Cymerwyd rhan gan y Parchedigion George Bewer ac Alun Jones. Traddodwyd y bregeth gan y Tad McNamara. Llywyddwyd y cyfarfod gan Weinidog yr Eglwys. Cyfeiliwyd gan Mr. Huw Peris Pritchard a Mr. John Davies oedd arweinydd y gân. Gwnaed casgliad at Gymorth Cristnogol.

LLONGYFARCHION:

i Alan Roberts (o Newton gynt) a'i briod ar enedigaeth eu merch Ffion ar 12 Ionawr yn Ysbyty Caerdydd, ac i Taid a Nain (Mr. a Mrs. Idwal Roberts, Stryd Newton

CYFARFOD SEFYDLU

Yn Jerusalem (A) Pentrecastell ddydd Mercher 19 Ionawr, sefydlwyd ac ordeiniwyd Mr. H.J. Hughes, Tregarth yn Weinidog ar yr Eglwys. Llywyddwyd cyfarfod y prynhawn gan yr Athro. D.R. ap Thomas, Bangor. Anerchwyd gan y Parch. Brifathro R. Tudur Jones, Bala-Bangor. Cafwyd hanes yr alwad gan Alun Roberts a thraddodwyd yr Urdd Weddi gan y Parch. John Gwilym Jones, Bangor, a'r cyngor gan y Parch. Athro Alwyn Charles, Bala-Bangor. Cyflwynwyd ef gan Y Parch. Ieuan Davies, Caernarfon, John Pritchard, Llanberis a Miss Enid Jones, Penmaenmawr. Croesawyd ef ar ran eglwysi'r ardal gan Thomas Evans, Robert Lloyd a'r Parchedigion George W. Brewer, Alun Jones a John Owen. Yn yr hwyr cafwyd pregeth gan y cynweinidog y Parch. Gareth H. Watts gyda'r gweinidog newydd yn llywyddu. Da oedd cael gweld y cynweinidog yn ôl yn Llanberis ar ei dro, a chael dymuno'n dda i'r gweinidog newydd fel gweinidog rhan-amser yn ein plith.

HEN GELFI

Noson o ddyfalu ynghylch hen bethau a sgwrsio amdanynt a

gafwyd yng Nghymdeithas Lenyddol Eglwysi M.C. Llanberis nos Lun, 17 Ionawr. 'Roedd y noson yng ngofal Mrs. Dilys Baylis a John Owen. Cafwyd nifer o hen gelfi hynod o ddiddorol a sgwrsio difyr. Diolchwyd i bawb gan J.S. Thomas. Nos Lun 31 Ionawr yng Nghapel Coch disgwyli'r y Parch. O.J. Pritchard Llanfairfechan i roi hanes ei ymweliad â Phatagonia y gwanwyn diwethaf.

COLLED

Collodd Llanberis un arall o'i phobl weithgar ym marwolaeth Mrs. Margaret Ellen Owen, Fflat 68, Maes Padarn. Bu farw ei gŵr, Mr. Owen David Owen, ugain mlynedd yn ôl. Gwraig siriol iawn oedd Mrs. Owen a chanddi lu o gyfeillion yn yr ardal. Ar hyd ei hoes bu'n aelod ffyddlon o Gapel Nant Padarn. Am flynyddoedd lawer bu'n Drysoryddes Sefydliad y Merched yn Llanberis ac yn aelod o Gôr Merched Llanberis a fu'n cystadlu mor llwyddiannus. Cydymdeimlir yn fawr â'r merched Lena a Jenny, a'r mab Emrys, y wyresau Gwyneth a Gillian a'r ŵyr Gareth, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.



Yn ôl arolwg a wnaed ar y cyd gan y 'Farmer's Weekly' a 'Woman's Realm', mae tatws yn costio tua 3c y pwys i'w cynhyrchu a thua 12c y pwys i'w prynu yn y siopau. Mae'r 9c o wahaniaeth yn mynd i boced y cyfanwerthwyr a'r siopwyr.

CRONFA GOFFA WMFFRA ROBERTS

50c: Miss A.C. Williams, Nefyn.
£1.00: Ifor Williams, Pencae-newydd; Dafydd Williams, Pwllheli; Dorothy Williams, Llanberis; Mrs. M. Rowlands, Llanystumdwy; John a Nancy, Llanfairfechan; Mr. a Mrs. I. Benjamin Llanfairfechan; Moses Williams, Pontllyfni; RT a MWJ o Benygroes; Dafydd Idriswyn, Bangor.

£2.00: Mrs. JE ac Angharad Rhys, Caernarfon; Mrs. L.B. Jones, Carmel; Miss E. Jones Nebo, Emyr Price, Bethel.

£3.00: Iolo ac Olwen Llewelyn, Llanrug; Mrs. Gladys Roberts, Penygroes.

£4.00: Eurig a Gillian Wyn, Waunfawr.

£5.00: Pwyllgor Rhanbarth D. Dinbych; Wil a Siw Roberts, Llandwrog; Mrs. Gweneirys Jones, Waunfawr; Mrs. M. Williams, Waunfawr; Silyn a Nerys Parry, Penygroes; Mr. a Mrs. Iolo Huws-Roberts, Waunfawr; Mr. a Mrs. H. Parry, Llanfairfechan; Robin a May, Caernarfon; Dafydd a Marion Iwan; Dennis Jones, Pontllyfni.

£10.00: Cangen Felinheli; Wm. M. Povey, Garnodolbenmaen; Pwyllgor Rhanbarth Môn; Nerys ac Elin Angharad; Pwyllgor Rhanbarth Ceredigion.

£20.00: Cangen Cricieth; H.A. Roberts, Pontllyfni.

£25.00: Robyn a Gwenan Lewis, Nefyn; Cangen Porthmadog.

£100.00: A.W. Williams, Pwllheli.

GELLWCH YMDDIRIED YN

JOHN TREVOR

Garej Hafod Llanrug

am geir newydd
ac ail law rhagorol



CHWARAEON

EMPIRE POOL LLANRUG

PRIN fod angen cyflwyno Mr. Richard Hughes Jones, Fferm Bryn Afon, Llanrug i ddarllenwyr yr *Eco*. Gŵyr pawb mai Dic Wya' oedd un o'r rhai cyntaf yn yr ardal i gadw ieir mewn batri er mwyn cynyddu eu cynnyrch, ac adeiladwyd cwt anferth ar ôl y llall ganddo fel yr ehangai ei fusnes. Yn wir, bu cymaint a hanner can mil o ieir yno ar un adeg; ond lleihau wnaeth eu nifer yn ddiweddar fel yr â'r busnes i lawr.

Daeth diwrnod pan sylweddolodd Mr. Jones fod gormod o gytiau ieir ganddo, a phan fo cwt ieir yn mesur can troedfedd a hanner o hyd a deg troedfedd ar hgain o led yn mynd yn wag, 'does ond dau ddewis — rhaid ei ddymchwelyd neu wneud defnydd ohono.

Ateb Dic Wya' oedd clirio'r lle o'r holl gelfi magu ieir, torri drws, un anferth yn un talcen ac adeiladu stondin wyllo wrth y llall. Prynu can tunnell a hanner o dywod wedyn a'i ledaenu ar y llawr a hysbysu yn y papura' newydd fod cyfleusterau ar gyfer neidio ceffylau ar gael yn Llanrug.

'Doedd o erioed wedi neidio ceffyl, a gwyddai nad oedd fawr o neb arall yn yr ardal â phrofiad o'r gamp ychwaith, ond gwyddai hefyd fod adeilad o'r un fath yn Nhrefor, Sir Fôn, a bod neidwyr o bob cwr o'r wlad yn heidio yno.

Aeth ei fab ati i adeiladu'r clwydi neidio a threfnu'r adeilad, ac erbyn yr agoriad swyddogol ar y 9ed o Ionawr 'roedd y lle yn

edrych fel yr *Empire Pool* yn Wembley, a saith clwyd ynddo i'w neidio mewn dwy res. Daeth nifer dda i gystadlu a bu'n gyfarfod hynod o lwyddiannus.

Y Sul diwethaf, y 23ain o'r mis 'roedd oddeutu hanner cant o geffylau yno, a bu cystadlu brwd o unarddeg yn y bore hyd at bedwar yn y prynhawn. 'Roedd y



Disgwyl am eu tro yn yr arina

Tim Bethel 1913

Ni dderbyniwyd yr un cynnig ar enwi aelodau tîm 'Wolves' Llanberis 1921 yng nghystadleuaeth y Nadolig, ond daeth llythyr i law ynglŷn â'r tîm o Fethel a ddangoswyd yn rhifyn Rhagfyr o'r *Eco*, a hwnnw, goelliwch chi o Lerpwl.

Mr. Owen R. Thomas, Gwern Alun, Bethel (gynt) oedd yr awdur ac mae'n byw yn Lerpwl ers blynnyddoedd lawer bellach. Mae'n 86 mlwydd oed, ac yn eithriadol o falch o'i gysylltiad â'r ardal. Bydd yn treulio ei wyliau ym Methel bob mis Awst. Mae'n ewythr i Mrs. Elizabeth Evans, Blaen Parc a hi fydd yn gyrru'r *Eco* iddo bob mis.

"Fel hyn yr oedd pethau," meddai Mr. Thomas yn ei lythyr, "tynnwyd y llun tua 1913. 'Roeddynt yn chwarae ar gae yn perthyn i fferm Glanrafon — Llwyn Bedw ar y chwith iddo a chyferbyn i ble mae Tai Cae 'rwan."

Nid oedd cynghrair iddynt i chwarae ynddi, ond byddai digon o gyfle i chwarae yn y Cystadleuaethau a gynhelid o gwmpas y sir.



"Y tro diwethaf y gwelais hwy yn chwarae oedd mewn cystadleuaeth yn Llangefni — chwarae yn dda iawn ond ddim yn ennill."

Chwalwyd y tîm pan ddaeth y rhyfel byd cyntaf, a cholodd pedwar ohonynt eu bywyd."

Dyma fel mae Mr. Thomas yn cofio'r tîm — y rhes mae o'r chwith i'r dde: Mr. Morgan o'r Felinheli — yn helpu'r reffari; Ben Griffith — Wenallt gynt. Now Jones Groeslon; Tom Jones, Capel Seion; Foulk — brawd Mrs. Thomas, 13 Bro Rhos; Isaac Parry. Will Foulk.

Rhes flaen: Robin John Williams; Wil Dafydd, Fron Heulog; Evan Huw, Parc y Wern; William John Griffith; un o Gwm-y-Glo sydd wrth ei ochr — 'dydi Mr. Thomas ddim yn cofio ei enw. a Mr. Owen Thomas ei hun sy'n sefyll ar y dde. Fo oedd y reffari a'r hyfforddwr.

Eind diolch a'n llongyfarchiadau i Mr. Thomas ar ei gof arbennig a'i sylwadau caredig am *Eco'r Wyddfa*. 'Rwy'n siwr y maddeuir i mi am anfon gwobr cystadleuaeth y Nadolig iddo.

TÎM DAN 18 OED LLANBERIS CWPN CYMRU LLANBERIS O RHYL 5

Yn Llanberis ar y cyntaf o Ionawr, a'r Rhyll yn chwarae â deg dyn yn unig, ond 'roedd y rhain yn fwy na digon i roi cweir iawn i'r hogia lleol.

'Doedd dim patrwm o gwbl ar chwarae Llanberis, a llinell ôl y Rhyll yn delio'n gyfforddus â phopeth oedd ganddynt i'w gynnig.

'Does ond y gystadleuaeth ar ôl iddynt bellach. Byddant yn amddiffyn Cwpan Pant y Fedwen yn erbyn Botwnnog yn Llanberis y Sadwrn nesaf. Pob lwc iddynt.



Ymarfer dros y clwydi ar y cae cyn mentro i'r arina.

cae y tu ôl i'r adeilad yn llawn o neidwyr yn cynhesu eu ceffylau tros y naid ymarfer eraill yn disgwyl wrth y drws am eu tro yn yr arina a channoedd o bobl leol wedi dod yno i wyllo.

Ymhlith y cystadleuwyr bûm yn siarad â rhai o ganolbarth Cymru, rhai o Glwyd ac un eneth fach oedd wedi dod yr holl ffordd o Fanceinion yn un swydd i'r cyfarfod yma.

Gwelwyd cystadlaethau neidio, o safon uchel, a rhai o bob oed yn dangos eu dewrder. Bu cystadleuaeth neidio â'r ceffyl yn ddi-gyfrwy, a chliriwyd y llawr ar gyfer gymkhana.

Yn anffodus nid yw'r adeilad yn addas ar gyfer y ceffylau mwyaf, ond mae cynlluniau mewn llawr o changu ei led i hanner can troedfedd. Pwy ŵyr na welwn rai tebyg

PÊL DROED Llanberis

Dechrau siomedig i'r mis gan golli yn erbyn Pilkington, Llan Elwy yn ailchwarae trydydd rownd Cwpan Iau Gogledd Cymru. 3 — 2 oedd y sgôr.

Ionawr 15 LLANBERIS 3 COED MAWR 2

Gêm anghyffrous a chwarae blêr o'r ddwy ochr. Ray Harding, John Pritchard a Gwilym Williams yn sgorio.

Ionawr 22 MOUNTAIN RANGERS 4 LLANBERIS 2

Llanberis sgoriodd gyntaf yn y gêm yma drwy Iwan Evans, ac yn wir 'roedd graen ar eu chwarae — yr holl dîm yn ymosod — ond efallai mai'r pwyslais yma fu'r rheswm i'r Rangers sgorio dwy cyn yr egwyl. Gallai Llanberis fod wedi ei gwneud yn gyfartal yn yr ail hanner petai eu saethu am y gôl yn well. Er yr holl bwyso ar gôl y Rangers, y nhw aeth ymlaen eto gan sgorio ddwywaith. Bu Emyr Roberts yn llwyddiannus cyn ddiwedd y gêm, ond 'roedd amddiffyn caled a gwrthdaro cyflym y Rangers wedi ennill y gêm erbyn hyn.

TÎM Y GYNGHRAIR

MAE Hugh Hughes, Ken Jones a Nigel Hardwidge o dim Llanrug a Ray Harding, Barry Pitts a Ken Evans o Lanberis wedi eu dewis yn y tîm i gynrychioli Cynghrair Arfon yng nghystadleuaeth Tarian Tucker.

Credir ar hyn o brd y bydd eu gêm gyntaf ar gae Llanrug rhywdro yn Chwefror.

i Harvey Smith a hyd yn oed y Dywysoges Anne yno wedyn.

Yn y dyfodol agos ffurfir Clwb Neidio Ceffylau Bryn Afon, gyda'r gobaith o gael cystadlu yn erbyn clybiau o'r un math. Ar hyn o bryd mae croeso i unrhyw un fynd â'i geffyl yno i ymarfer, ac mae Mr. Jones yn bwriadu cyflogi hyfforddwr, gan obeithio ennyn diddordeb plant a phobl yr ardal.

Mae'r adeilad ar gael i'w logi gan unrhyw glwb neu gymdeithas a all wneud defnydd ohono. Mae'n rhaid cofio mai tywod sydd ar y llawr ac efallai mai anfantais fyddai hynny i chwarae pêl droed, dyweder, arno. Ond gellid ei ddefnyddio i ymarfer a byddai'n lle delfrydol i gyfarfodydd megis campau dan do, sioe gŵn, a llawer o weithgareddau eraill.

Mae lle yn y stondinau gwyllo i gymaint a hanner cant, a chyfleusterau ar gael i wneud paned a bwydydd ysgafn.

Mae Mr. Jones wedi paratoi campfa dan do ardderchog yn ardal *Eco'r Wyddfa*. Hyderwn y byddwch chi, y bobl leol yn gwneud defnydd ohoni. Mae eraill o'r tu allan yn siwr o wneud!



Enillydd cystadleuaeth y ceffylau rhwng 12 — 2 a 13 — 2 llaw. Sharon Jones o Landdeusant.

Llanrug

Ionawr 1af LLANRUG 4 MOUNTAIN RANGERS 4

Gêm ragorol, gyffrous a'r canlyniad yn ansicr hyd at y diwedd, Ernie Talbot (2) Hefin Pritchard a J.G. Jones yn sgorio i Lanrug.

Ionawr 8ed
LLANRUG 3 COLEG NORMAL 1
Hon yn gêm eithriadol o dda eto, a dau neu dri o hogia lleol yn nhîm y Normal yn creu mwy o ddiddordeb ynddi.

Ernie Talbot, John G. Jones ac Aneurin Roberts i Lanrug a Howyn Jones (o Lanberis) yn ymateb i'r Normal yn munudau ola'r gêm.

Ionawr 15ed PORTHMADOG 4 LLANRUG 3

Llanrug yn chwarae fel tîm ar chwâl, a phetai'r Port wedi sgorio pedair arall fyddai ganddynt ddim cwyn o gwbl Bu Llanrug yn hynod o lwcus i'w gwneud yn gyfartal hanner amser. J.G. Jones yn methuicio'r bêl ac yn ei chodi efo'i benglin dros ben y golgeidwad.

Yn yr ail hanner sgoriodd Porthmadog â chic gosb ond daeth Llanrug yn gyfartal eto, — J.Smith yn sgorio y tro hwn.

Ond 'doedd dim atal ar flaenwyr Port ac mewn cyfnod o chwarae da iawn, cawsant ddwy gôl arall i wneud y gêm yn saff.

Dechrau gweddol i'r flwyddyn newydd — 3 phwynt yn unig allan o dair gêm, a'r bencampwriaeth yn llithro ymhellach o'u gafael.

'Doedd dim gêm gan Lanrug ar yr 22.